Ffigur 1:	Braslun o Broses Gwerthuso Cychwynnol ac Estynedig ICANN	6
Ffigur 2:	I ba raddau y byddai cyfeiriad ".wales" yn cryfhau eich ymddiriedaeth yn nilysrwydd a diogelwch gwefan? (Sampl lawn)	18
Ffigur 3:	I ba raddau y byddai cyfeiriad ".wales" yn cryfhau eich ymddiriedaeth yn nilysrwydd a diogelwch gwefan? (Unigolion sy'n gwario £0.00 – £9.99 y mis ar lein)	19
Ffigur 4:	Yr hyn sydd orau gan bobl wrth gymharu parau o URLs sy'n cynnwys cyfeiriad at "Wales"	26
Ffigur 5:	Yr hyn sydd orau gan bobl wrth gymharu parau o URLs sy'n cynnwys cyfeiriad at "Cymru"	27
Ffigur 6:	Defnyddio'r Rhyngrywyd o'i gymharu â phryniannau defnyddwyr (y Deyrnas Unedig)	28
Ffigur 7:	Nifer y gwefannau sydd wedi cofrestru â'r part "cat" 2007 – 2011	32
Ffigur 8:	Gwefannau Catalaneg, % o gyfanswm y cyfartaledd traws-sector misol	33
Ffigur 9:	Gwefannau Catalaneg, % o'r cyfanswm 2002 – 2011 cyfartaledd fesul diwydiant	34
Ffigur 10:	Lefel y pryder ynglŷn â thorri Eiddo Deallusol* yn sgil y TLDs newydd	37
Blwch 1:	Beth oedd orau gan bobl yn arolwg defnyddwyr LE Wales	25





Geirfa

Byrfoddau terminoleg

ccTLD	Parth Lefel Uchaf Cod Gwlad
DNS	System Enwau Parth
gTLD	Parth Lefel Uchaf Generig
ICANN	Corfforaeth y Rhyngryd ar gyfer Neilltuo Enwau a Rhifau
IDN	Enw Parth Rhyngwladol
IP	Protocol y Rhyngryd
ONS	Swyddfa'r Ystadegau Gwladol
TLD	Parth Lefel Uchaf
UDRP	Polisi Datrys Anghydfodau Cyffredinol
URL	Lleolydd Adnoddau Unffurf



Ymchwil annibynnol

Seilir yr adroddiad hwn ar waith ymchwil annibynnol a gomisiynwyd gan Nominet UK. Mae'r ymchwil yn archwilio buddion a chostau cyflwyno enwau part haf uchaf newydd sy'n seiliedig ar ardaloedd daearyddol (TLDs daearyddol), megis ".cymru" a ".wales".

Manteision enw part newydd

Mae'n anodd mesur buddion yr enwau part newydd hyn, ond credwn mai'r tebygolrwydd yw y byddent yn gwrthbwys o'r costau i raddau sylweddol. Mae ein harolygon yn awgrymu bod 70 % o ddefnyddwyr Cymru a 59 % o fusnesau Cymru a'u hatebodd yn credu y dylai Cymru gael ei pharth ei hun.

Adroddiadau arolygon busnes

Roedd oddeutu 40 % o'r rhai a atebodd ein harolwg i fusnesau'n meddwl y gallai enw part i Gymru helpu i hyrwyddo'u busnes yng Nghymru. Roedd oddeutu 30 % yn meddwl y byddai enw part ".wales" yn helpu i hyrwyddo'u busnes y tu allan i Gymru ac yn rhwngwladol, tra bo oddeutu 20 % yn meddwl y byddai enw part ".cymru" yn cael yr effaith hon.

Brandio Cymreig

Mae gwerth brandio Cymreig i fusnesau'n amrywio ar draws y sectorau a bydd enw part i Gymru'n galluogi'r busnesau hynny sy'n meddwl y gall fod o help iddynt hyrwyddo'u busnes fanteisio ar y brandio a'r buddion eraill y mae'n eu cynnig. Ar sail ein harolwg ymhlieth defnyddwyr, amcangyfrifir y gellid dylanwadu ar fwy na £2 biliwn o wariant aelwydydd yng Nghymru drwy ddefnyddio enw part ".wales" yn hytrach na rhyw ddewis arall er bod hyn yn debygol o ddod ar draul masnachu ar-lein ac all-lein mewn mannau eraill.

Crynodeb Gweithredol

Dewisiadau defnyddwyr

Mae defnyddwyr yng Nghymru'n dangos eu bod yn ffafrio naill ai ".wales" neu ".cymru" yn fwy na'r rhan fwyaf o ddewisiadau eraill ac mae ychydig yn fwy ohonynt yn ffafrio ".cymru" yn fwy na ".wales". Mae ein harolwg ymhliith defnyddwyr yn awgrymu bod mwy o ddefnyddwyr Cymru o fymryn yn ffafrio part "cymru" o'i gymharu â pharthau poblogaidd eraill megis ".co.uk" a ".com" (59 % a 72 % yn y drefn honno) nag sy'n ffafrio ".wales" yn lle'r un parthau (53 % a 70 %, yn y drefn honno). Ystyriwyd dewis arall hefyd, sef dewis cyfun, "cymru-wales", ond nid oedd y defnyddwyr yn ffafrio hwnnw.

Dewisiadau busnes

Mae enw part "wales" yn fwy deniadol o lawer i fusnesau Cymru na ".cymru" am ei fod yn fwy adnabyddus y tu allan i Gymru. Byddai'n well gan 42 % o'r rhai a atebodd ein harolwg ymhliith busnesau weld ".wales" yn barth lefel uchaf ar gyfer Cymru (roedd yn well gan 24 % ".cymru"; yn well gan 15 % ".cymru-wales"; a doedd 15 % ddim yn gwybod).

Codi proffil Cymru

Gallai part arbennig i Gymru gyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu brand Cymru ac at gydnabyddiaeth ehangach i'r brand hwnnw dramor. Gallai hyn gefnogi gwaith Llywodraeth Cymru wrth gryfhau delwedd Cymru'n rhwngwladol er mwyn denu mewnfuddsoddi, hyrwyddo allforion Cymru a thyfu economi Cymru.

Nwyddau a gwasanaethau â brand lleol

Gallai part i Gymru, sy'nadlewyrchu'r ffafriaeth gadarn ymhliith defnyddwyr o blaid nwyddau a gwasanaethau â brand lleol, arwain at ragor o e-fasnach a thrafodion all-lein i fusnesau sy'n cofrestru o dan y part newydd. Petai part ar wahân i Gymru ond yn cynyddu e-fasnach 1 %, er enghraifft, yna byddai hyn yn cyfateb i gynnydd mewn gwerthiannau gwerth £195m.



1 Rhagarweiniad

Comisiynwyd LE Wales gan Nominet, gweithredwr cofrestrfa'r part "uk", i ymchwilio i gostau a buddion economaidd y cynigion i greu TLD daearyddol i Gymru. Nod yr astudiaeth yw cynnig fframwaith ar gyfer dadansoddi effaith economaidd TLDs daearyddol newydd a chasglu tystiolaeth ynglŷn â'r costau a'u buddion i Gymru.

‘...fe allai dinasoedd megis Berlin, Efrog Newydd, Paris, Rhufain, Moscow, San Francisco, Tokyo a Sydney gael eu TLDs daearyddol eu hunain cyn bo hir...’

1.1 TLDs a'r system enwau parth

Defnyddir system enwau parth (DNS) i hwyluso llywio ar y Rhyngrywd. Mae'r system hon yn adnabod gwefannau ac adnoddau eraill ar y Rhyngrywd drwy ddefnyddio enwau parth sy'n seiliedig ar lythrennau'r wyddor yn hytrach nag ar gyfeiriadau rhifol sylfaenol Protocol y Rhyngrywd. Mae pob enw'n cynnwys dilyniant o linynnau o nodau ("labeli") gyda dot yn eu gwahanu. Gelwir y dilyniant olaf o'r rhain yn barth lefel uchaf (TLD).

Mae dau brif fath o TLD:

- TLDs â chod y wlad (ccTLDs), e.e. ".uk", ".de.", ".fr", ac ati. Mae'r rhain gan amlaf yn cynnwys dau nod¹ ac fe'u rheolir gan gofrestrfeydd enwau parth lleol;
- TLDs generig (gTLDs), sy'n cynnwys tri nod neu fwy (e.e., ".com", ".net" a ".org"). Yn wahanol i'r ccTLDs, caiff gTLDs eu rheoli gan Gorfforaeth y Rhyngrywd ar gyfer Neilltuo Enwau a Rhifau (ICANN), partneriaeth gyhoeddus-breifat sy'n gyfrifol am gydlynau a chynnal enwau parth drwy'r gymuned ryngwladol.


Ym mis Mehefin 2008, derbyniodd ICANN argymhelliaid gan ei rhanddeiliaid byd-eang a chyhoeddi ei bod am ddiwygio'r rheolau a'r rheoliadau sy'n llywodraethu parthau lefel uchaf generig gan ganiatáu ehangu'r gofod enwau parth drwy gynnig y cyfle i unrhyw unigolyn, cwmni, gwlad neu ddinas wneud cais am TLDs newydd. Gallai'r rhain yn awr gynnwys nodau nad oeddent yn perthyn i'r script Rufeinig. Bydd ICANN yn derbyn ceisiadau am y parthau newydd rhwng 12 Ionawr a 12 Ebrill 2012.

1.2 Parthau lefel uchaf daearyddol

Mae sefydliadau ac unigolion ym mhob cwr o'r byd wedi sylweddoli bod rheoliadau newydd ICAAN yn cynnig cyfleoedd. Mae parthau lefel uchel daearyddol i ddinasoedd a rhanbarthau (TLDs daearyddol) o ddiddordeb arbennig, gan fod o leiaf 18 o gynlluniau ar y gweill i gyflwyno parthau lefel uchaf ar gyfer dinasoedd ledled Ewrop, Asia, Awstralia ac America. Felly, fe allai dinasoedd megis Berlin, Efrog Newydd, Paris, Rhufain, Moscow, San Francisco, Tokyo a Sydney gael eu TLDs daearyddol eu hunain cyn bo hir, gan alluogi busnesau lleol, cyrff a sefydliadau dinesig i bwysleisio'u cysylltiad â dinas benodol (neu â chymuned, megis gyda'r cynlluniau ar gyfer TLDs i Gorsica, Flandrys, New South Wales ac ati).

¹ Ers 2010, mae parth lefel uchaf codau gwlad ryngwladol (IDN ccTLD neu ccIDN) sy'n cael eu dangos fel nodau'r iaith frodorol ym mhonwyr gwe'r defnyddiwr ar gael.

Ffurig 1: Braslun o broses gwerthuso cychwynnol ac estynedig ICANN



Ffynhonnell:
ICANN

Yn y Deyrnas Unedig, mae'r diddordeb mewn TLDs daearyddol wedi bod ar ei gryfaf yn Llundain, yng Nghymru ac yn yr Alban, lle mae ymchwydd o gefnogaeth o blaid y syniad wedi bod yn amlwg. Mae'n debygol y bydd llawer yn gwneud cais am TLDs daearyddol newydd ac felly mae angen un neu fwy o geisiadau cadarn a chlir am barth i Gymru ac mae angen cefnogaeth ddiamwys iddynt er mwyn osgoi oedi a all fod yn sylwedol ym mhroses cymeradwyo ICANN.

Er y bydd ICANN yn gwerthuso'r ceisiadau i gyd, mae'r arwyddion cynnar gan ICANN yn awgrymu mai dim ond 1,000 o'r ceisiadau a fydd wedi cwbllhau'r broses gwerthuso a gaiff gamu i'r cam nesaf sy'n arwain at broses y ddirprwyaeth dechnegol. Mae wedi dweud nad ar sail y cyntaf i'r

- * ICANN will seek to publish contention sets prior to publication of full IE results.
- * Extended evaluation can be for any or all of the four elements below:
 - Technical and operational capability
 - Financial capability
 - Geographical names
 - Registry services
 But NOT for string similarity or DNS stability.



Initial evaluation – applicant review

Financial capability

Financial panel reviews applicant's answers to questions and supporting documentation.

Registry services

Preliminary review of applicant's registry services and referral to RSTEP for further service during extended evaluation where necessary.

Applicant continues to subsequent steps.

Yes

Braslun o broses gwerthuso cychwynnol ac estynedig ICANN

felin y gwneir hyn ond nid yw wedi datgan yn glir pa broses ddethol a ddefnyddir. Mae wedi ei gwneud yn glir y bydd y ceisiadau hynny na fyddant yn mynd yn eu blaen i'r cam nesaf yn wynebu oedi sylweddol, nifer o flynyddoedd, cyn yr agorir ffenestr ymgeisio nesaf ICANN ar gyfer gTLDs . Oherwydd hyn, mae darpar ymgeiswyr a rhanddeiliaid eraill wedi bod yn canolbwytio ar nodi'r buddion gwahanol opsiynau ar gyfer TLDs newydd. Nod yr astudiaeth hon yw cyfrannu at y ddadl honno. Rhoddir braslun o broses Gwerthuso Cychwynnol ac Estynedig ICANN yn Ffigur 1.

1.3 Enwau part a pholisiau economaidd Cymru

Yng Nghymru, mae 84 % o aelwydydd yn gallu cysylltu â'r Rhyngrwyd drwy fand eang (cynnydd o 54 % yn 2006)² a bydd 25 % o oedolion yn defnyddio'u ffonau symudol i gael gafael ar wasanaethau data (e-bost, y Rhyngrwyd, rhaglenni'r rhyngrwyd ac ati)³. Mae hyn yn golygu y gall y Rhyngrwyd fod yn gyfrwng pwysig i fusnesau gyrraedd y farchnad – yn enwedig felly i'r gyfran fawr honno o fentrau bach a chanolig (a microfusnesau) sy'n dymuno gwerthu i ddefnyddwyr yng Nghymru.

Yn ogystal â'r tair miliwn o bobl sy'n byw yng Nghymru, awgryma'r gwaith ymchwil y gall fod tri chwarter miliwn o Gymry yn byw y tu allan i Gymru a 3m o bobl sy'n honni eu bod o dras Gymreig.⁴ Awgryma hyn y gall fod cronfa o rhwng 4 a 5 miliwn o ddefnyddwyr a allai gael eu denu gan enw part i Gymru yn sgil eu hunaniaeth genedlaethol. Mae'n debygol bod cronfa arall o ddefnyddwyr nad oes ganddynt hunaniaeth Gymreig ond sydd hefyd yn cael eu denu gan frand sydd wedi'i seilio ar hunaniaeth Gymreig, oherwydd y nodweddion cadarnhaol y maent yn eu cysylltu â'r brand hwnnw.

Er gwaetha'r niferoedd hyn, mae gan Gymru broblem benodol sef nad yw llawer o bobl dramor yn adnabod Cymru nac yn gwybod fawr amdani. Mae Llywodraeth Cymru ac eraill wedi bod yn cymryd camau dros nifer o flynyddoedd i godi proffil Cymru yng ngweddill y byd ac i gryfhau brand Cymru. Enghreifftiau o hyn yw denu digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol mawr i Gymru, megis Cwpan Ryder yn y de ddwyrrain yn ddiweddar a chystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd a gynhelir bob dwy flynedd; yn ogystal ag ymgyrchoedd marchnata megis y rheini a gynhelir gan Croeso Cymru a'r rheini yn sector bwyd Cymru (e.e. Cymru: y Gwir Flas).⁵ Gall enw part i Gymru chwarae rhan gefnogol gadarnhaol mewn gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at gryfhau delwedd brand Cymru ac at hybu allforion a mewnfuddsoddi. Gall hefyd gynnig ffynhonnell gyson o hysbysebu lefel isel am ddim mewn amrywiaeth eang o wahanol gyd-destunau drwy barhau i ddefnyddio gwefannau a chyfeiriadau e-bost sydd wedi'u seilio ar y part hwnnw.

Gallai enw part i Gymru chwarae rhan yng nghyd-destun Strategaeth Cymru Ddigidol Llywodraeth Cymru, ac yn y cynllun ehangach, Cyllun Adnewyddu'r Economi, drwy gefnogi datblygu sector TGCh Cymru a'r diwydiannau creadigol.⁶ Un elfen o'r strategaeth yw cryfhau rôl Cymru yng nghyswllt ymddiriedaeth ddigidol a diogelwch systemau gan geisio sefydlu Cymru'n Rhanbarth Rhagoriaeth o ran Atal e-Droseddu. Yn y cyd-destun hwn, gallai part i Gymru sy'n cael ei reoli'n dda fod yn arwydd pwysig o ddiogelwch/ymddiriedaeth i ddefnyddwyr ac i fusnesau, hyd yn oed os nad yw'n nod sicrwydd diogelwch ffurfiol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod defnyddwyr yn ymddiried mwy mewn parthau gwe lleol.

² Eurostat (2001), Ystadegau rhanbarthol Cymdeithas Gwybodaeth.

³ Ofcom (2011).

⁴ Sei'r hyn ar amcangyfrifon ar gyfer y Deyrnas Unedig (cyn drigolion y Deyrnas Unedig 9.2 % o boblogaeth y Deyrnas Unedig a 58m o bobl yn hawlio bod eu hynafiaid yn dod i'r Deyrnas Unedig) a gyhoeddwyd gan yrIPPR. [Mae Crynodeb Gweithredol o'r adroddiad ar gael i'w lwytho i lawr ar 21 Hydref 2011]: http://www.ippr.org/images/media/files/publication/2011/05/BA_exec_summ_1548.pdf [accessed 21 October 2011].

Awgrymai darn arall o ymchwil i Lywodraeth Cymru, a seiliwyd ar ddadansoddiad o enwau teuluoedd, y gall fod dros 16m o bobl drwy'r byd a'u hynafiaid o Gymru, er effalai fod llawer o'r rhain nad ydynt yn gwybod eu bod o dras Gymreig.

⁵ Mae gan Lywodraeth Cymru wefan hefyd sy'n ceisio esbonio'r brand: <http://www.walesthebrand.com/> [llwythwyd i lawr 21 Hydref 2011].

⁶ Mae Cyllun Cyflawni Strategaeth Cymru Ddigidol ar gael yn: <http://wales.gov.uk/docs/det/publications/110427deliveryplan.pdf> [llwythwyd i lawr 23 Hydref 2011].



‘Gall enw part i Gymru chwarae rhan gefnogol gadarnhaol mewn gweithgareddau sydd wedi’u hanelu at gryfhau delwedd brand Cymru ac at hybu allforion a mewnfuddsoddi.’

1.4 Methodoleg yr astudiaeth

Wrth ymchwilio, dilynwyd pedwar llinyn er mwyn canfod nodweddion costau a buddion economaidd TLD daearyddol i Gymru a – lle’r oedd hynny’n bosibl – ceisio mesur y costau a’r buddion hynny.

- 1) adolygu llenyddiaeth economeg yn ogystal â’r dystiolaeth a gasglwyd gan bobl â diddordeb yn y maes (sefydliadau busnes, cyrff y llywodraeth arbenigwyr a’r cyrff sydd o blaid TLDs newydd yn bennaf);
- 2) arolwg dwyieithog ymhliith defnyddwyr yng Nghymru sy’n defnyddio’r Rhyngrwyd;
- 3) arolwg ymhliith y prif benderfynwyr mewn busnesau yng Nghymru; a
- 4) chyfres o ymgynghoriadau i geisio barn sefydliadau busnes, cyrff y llywodraeth, y rheini sy’n gweithredu TLDs a’r rhai sy’n ymgyrchu drostynt.

Cynhaliwyd yr arolygon ymhliith defnyddwyr a busnesau er mwyn canfod beth fyddai orau ganddynt o ran TLD daearyddol i Gymru ac er mwyn deall yn well beth fyddai cwmpas yr effaith a gâi hynny. Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn wrth ymgynghori, a thrwy hyn, cafwyd gwybodaeth ansoddol ynglŷn â goblygiadau economaidd TLDs daearyddol o wahanol safbwytiau’r sbectrwm barn. Drwy’r drafodaeth isod, defnyddir yr wybodaeth a gafwyd o’r arolygon ac wrth ymgynghori i’n goleuo. Ymgynghorwyd â nifer fach o:

- sefydliadau ym myd diwydiant y tybir y câi eu haelodau fudd yn sgil TLDs daearyddol newydd;
- cyrff y llywodraeth sy’n ymwneud â hybu gweithgarwch economaidd yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig ar lefel ehangu;
- sefydliadau ac unigolion sy’n ymwneud â hyrwyddo a monitro TLDs daearyddol newydd neu’n ymchwilio iddynt.

Dyma drefn yr adroddiad:

- Cyflwyno’r fframwaith economaidd ar gyfer asesu costau a buddion TLDs daearyddol newydd;
- Trafod y dystiolaeth ynglŷn â’r costau a’r buddion;
- Casgliadau ac asesiad o oblygiadau economaidd TLDs daearyddol newydd i Gymru.



2 Costau a buddion TLDs daearyddol newydd: ffframwaith dadansoddol

Mae a wnlo'r astudiaeth hon â gweld pa fuddion a chostau a allai godi yn sgil cyflwyno TLDs daearyddol newydd ar dair lefel wahanol, gan ganolbwytio ar y canlynol:

- yn gyntaf, ar y buddion economaidd i ddefnyddwyr ac i fusnesau;
- yn ail, ar y buddion ehangach (gan gynnwys buddion nad ydynt yn rhai economaidd) a godai yn sgil effaith TLDs daearyddol newydd ar gymunedau daearyddol, diwylliannol ac ieithyddol; ac
- yn olaf, ar yr effaith ar weithredwyr cofrestrfeydd y TLDs sydd ar gael eisoes a rhai newydd.

Gallai busnesau sydd â phresenoldeb ar y we a defnyddwyr eu gwasanaethau fod ar eu hennill yn sgil cyflwyno TLDs daearyddol a hynny mewn sawl ffordd bwysig:

- Gan fod TLDs daearyddol yn dangos ymhle mae canolfan ddaearyddol cwmni ac yn ei helpu i dargedu cwsmeriaid lleol yn fwy cywir, fe allai busnesau sy'n cynnig cynhyrchion a gwasanaethau y mae defnyddwyr lleol yn eu ffafrio fod ar eu hennill wrth i'w gwerthiannau gynyddu.
- Mae'r gofod sydd ar gael ar gyfer enwi TLDs yn gyfyng ar hyn o bryd ac felly, mae'r cyflenwad o enwau parth cofiadwy, manwl-gywir a deniadol yn brin. Efallai y byddai lle i "Joesbar.nyc" ar yr arwydd uwchben y drws ond go brin y byddai "JoesbarinNewYork City.com". Gallai TLDs newydd liniaru'r broblem a gwneud marchnata ar-lein ac all-lein cwmniâu'n fwy deniadol.
- Gallai cwmniâu y mae eu cynhyrchion a'u gwasanaethau'n elwa o gysylltiad â'r nodweddion sy'n cael eu hystyried yn gadarnhaol mewn ardal gynyddu eu gwerthiant drwy gryfhau'r cwlwm rhwng delwedd y lleoliad a'u brand nhw eu hunain. Yng Nghymru, er enghraift, gellid disgwyl effaith o'r fath yn y sector ffermio a thwristiaeth.
- Wrth i fusnesau ac unigolion ddefnyddio TLDs daearyddol newydd, nid dim ond ar wefannau, ond hefyd mewn negeseuon e-bost, blogiau, wrth drydar ac ati, bydd y lleoliadau eu hunain yn dod yn fwy gweladwy, a thrwy hynny, mae'n bosibl yr hybir diddordeb o'r tu allan gan hyrwyddo'r rhanbarth yn fwy eang.
- Gallai cyflwyno TLDs daearyddol newydd gryfhau ymddiriedaeth defnyddwyr yn y gwasanaethau ar-lein a gynigir gan fusnesau sy'n cofrestru ar gyfer y parthau newydd, a gallai hyn unwaith eto arwain at fwy o alw gan ddefnyddwyr sydd fel arall yn gyndyn o ddefnyddio'r Rhyngrywd ar gyfer trafodion masnachol. Gallai mwy o ymddiriedaeth greu buddion net i ddefnyddwyr na fyddent fel arall yn defnyddio'r Rhyngrywd ar gyfer trafodion masnachol oherwydd fe allant fanteisio ar drefn fwy hwylus, mwy o amrywiaeth, ac ati, drwy siopa ar lein.
- Fe allai defnyddwyr gael budd yn sgil gwahaniaethu rhwng cynnyrch gwahanol ardaloedd daearyddol fel rhan o strategaeth brand io busnesau. Er enghraift, byddai defnyddwyr sy'n cael eu denu gan gynhyrchion eiconig megis 'cig oen Cymru'n cael mwy o fudd yn sgil prynu o ffynhonnell sy'n amlwg yn gysylltiedig â'r dynodiad daearyddol hwn
- Gallai TLDs daearyddol leihau costau chwilio defnyddwyr drwy hwyluso targedu mwy cywir pan fydd pobl yn defnyddio chwilotwyr. Hefyd, yn sgil cyflwyno system fwy gronynnog drwy TLDs daearyddol (a gTLDs) culach fe allai hynny arwain at system enwi cyfeiriadau mwy greddol ar gyfer y Rhyngrywd drwyddo draw, gan hwyluso trefn llywio sy'n ochr gamu'r chwilotwyr.
- Wrth i TLDs daearyddol wneud cynnwys ar-lein lleol (sy'n rhywbeth y mae defnyddwyr yn rhoi gwerth arno) yn fwy hygrych, mae'n bosibl y bydd pobl yn defnyddio'r Rhyngrywd fwy, ac yn cael gwarged ychwanegol wrth wneud hynny.
- Yn olaf, bydd manwerthwyr ar y we'n aml yn cynnig gwasanaethau i ddefnyddwyr ar-lein ar ôl iddynt brynu nwyddau. Oherwydd y bydd TLDs daearyddol yn helpu i wneud cynigion manwerthu ar-lein lleol yn fwy hygrych i gwsmeriaid, fe allai'r cwsmeriaid hynny fanteisio mwy ar y berthynas ychwanegol hon rhwng prynu nwyddau ar lein a'r gwasanaethau y bydd siopau'n eu darparu y tu allan i'r Rhyngrywd gan siopau, gan arwain at fuddion ychwanegol.

Yn ogystal â'r manteision uchod y gallai TLDs daearyddol eu cynnig, dylid hefyd ystyried y costau posibl i fusnesau ac i ddefnyddwyr.

- Bydd yn rhaid i gwmnïau ysgwyddo costau cofrestru ar gyfer y parthau lefel uchaf ychwanegol ac fe allai'r rhain fod yn sylwedol, yn enwedig i fusnesau sy'n bwriadu gwneud cais am fwy nag un TLD.
- Fe allai monitro a gorfodi hawliau eiddo deallusol ar draws ystod eang o TLDs fod yn gostus iawn.
- Gallai TLDs daearyddol newydd effeithio er gwaeth ar fuddsoddi mewn brand ac enw da. Yn benodol, os bydd gan fusnesau sy'n cofrestru enwau parth tebyg, gallai'r busnesau hynny fanteisio am ddim ar ymdrechion marchnata busnesau eraill a chreu dryswch ymhliith defnyddwyr gan arwain at ostyngiad yn nhraffig y wefan. O ganlyniad, fe allai fod llai o gymhelliant i fusnesau sy'n cofrestru buddsoddi.
- Gallai'r cynnydd posibl yn nifer y gwefannau annilys ar ôl cyflwyno TLDs daearyddol gynyddu'r costau chwilio i ddefnyddwyr. Rhywbeth arall sy'n destun pryder yw sut y byddai chwilotwyr yn ymdrin â'r TLDs daearyddol newydd gan eu bod yn hidlo cyfran gynyddol o draffig y Rhyngrywd.

Gall cymunedau daearyddol, diwylliannol ac ieithyddol fod ar eu hennill drwy bob un o'r sianelau a restrir uchod a hwythau'n cynhyrchu ac yn defnyddio nwyddau a gwasanaethau. Mae manteision tebyg yn berthnasol i'r sector sydd heb fryd ar wneud elw hefyd. Yn yr un modd, mae'r sector hwnnw a'r gymdeithas ehangach yn wynebu costau ac anfanteision tebyg i'r rheini a ddisgrifir uchod ar gyfer mentrau masnachol, yn enwedig y costau sydd ynghlwm wrth fonitro a gorfodi hawliau eiddo deallusol a chofrestru gyda TLDs newydd.

Yn ogystal â hynny, gall cyflwyno parth ar wahân i ddefnyddwyr Cymru fod yn elfen bwysig o strategaeth i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg a'i diwylliant. Buddion annirnadwy yw'r rhain yn bennaf (er bod buddion economaidd cysylltiedig â chynhyrchu diwylliannol, twristiaeth, ac ati, yn debygol). Mae'r effaith olaf hon yn anodd ei mesur.

Gellir gweld nifer o costau a buddion ar lefel gweithredwyr cofrestrfeydd.

- Bydd y cofrestrfeydd a fydd yn gweithredu'r TLDs daearyddol newydd, y bydd angen iddynt sefydlu eu henw da a'u brand, yn rhoi pwysau cystadleuol ychwanegol ar gofrestrfeydd yr enwau parth sy'n bodoli eisoes. Yn sgil hynny, gallai busnesau sy'n cofrestru fod ar eu hennill oherwydd prisiau is a gwell gwasanaeth i gwsmeriaid gan weithredwyr y cofrestrfeydd.
- Gall cofrestrfeydd, sy'n gyfrifol am weinyddu TLDs presennol a rhai newydd, godi refeniwr drwy'r ffioedd cofrestru a gât am barthau yn y TLDs daearyddol newydd.
- Ar yr ochr costau, bydd gofyn i gofrestrfeydd ysgwyddo costau parhaus darparu gwasanaethau'r gofrestrfa a thalu ffioedd ymgeisio i ICANN.

Mae'r tabl dros y ddalen yn crynhoi'r gwahanol costau a buddion a ystyrir yn yr adroddiad hwn.



Tabl 1: Buddion a chostau TLDs daearyddol newydd

	Buddion	Costau
Gweithredwyr cofrestrfeydd TLD	Ffioedd a delir gan y rhai sy'n cofrestru	Costau parhaus darparu gwasanaeth cofrestrfa Ffi ymgeisio a delir i ICANN
Busnesau	<p>Gwerthu mwy oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Gwell brandio (ar lein ac all lein) b) Cwlwm rhwng brand rhanbarthol a'r brand masnachol c) Chwilio haws d) Defnyddwyr yn ymddiried mwy yng ngwasanaethau'r wefan e) Defnyddwyr yn ffafrio nwyddau a gwasanaethau lleol a brynir ar lein ac all lein <p>Gwell gwasanaeth i gwsmeriaid a phrisiau cofrestru is gan weithredwyr cofrestrfeydd oherwydd bod mwy o gystadleuaeth yn y farchnad cofrestru</p>	<p>Costs of registering for geo-TLDs</p> <p>Costau monitro a gorfodi hawliau eiddo deallusol</p> <p>Effaith er gwaeth ar fuddsoddi oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Bod rhai sy'n cofrestru'n manteisio am ddim ar fuddsoddiadau brandio'i gilydd b) Dryswch ymhlieth defnyddwyr yn arwain at lai o draffig ar wefannau
Cymunedau daearyddol / diwylliannol/ ieithyddol	Hybu a datblygu ieithoedd lleiafrifol a chymunedau daearyddol, diwylliannol ac ieithyddol	<p>Costau cofrestru</p> <p>Costau monitro a gorfodi hawliau eiddo deallusol</p>
Defnyddwyr / defnyddwyr y gwasanaeth	<p>Costau chwilio is yn sgil targedu mwy cywir</p> <p>Gwahaniaethu rhwng brandiau a chynnyrch daearyddol</p> <p>Gwarged defnyddwyr ychwanegol i ddefnyddwyr wrth iddynt ddefnyddio'r we fwy oherwydd bod cynnwys ar-lein lleol yn fwy hygrych neu oherwydd bod defnyddwyr yn ymddiried mwy ynddo</p> <p>Budd yn sgil prynu ar lein a gwasanaethau siopau lleol all lein</p>	Costau chwilio uwch oherwydd bod mwy o wefannau annilys
Costau a buddion net	<p>Budd ychwanegol yn sgil brandio lleol, manteision chwilio a mwy o ddefnyddio ar y rhyngrwyd oherwydd bod pobl yn ymddiried mwy ynddo</p> <p>Mwy o gystadleuaeth yn y farchnad TLD yn arwain at brisiau is a gwell gwasanaeth</p> <p>Cymunedau budd yn fwy cydlynol</p>	Costau dyblygu gwastraffus, gan gynnwys costau gorfodi Hawliau Eiddo Deallusol, tanfuddsoddi mewn brandio oherwydd bod rhai'n manteisio am ddim ar fuddsoddiadau pobl eraill a chostau chwilio



3 Tystiolaeth ynglŷn â buddion a chostau TLDs daearyddol newydd

Mae'r adran hon yn crynhoi'r dystiolaeth theoretig a ffeithiol sydd ar gael ynglŷn â'r costau a'r buddion y gall rhywun ddisgwyl eu gweld pan gyflwynir TLDs daearyddol newydd. Byddwn yn canolbwytio ar y costau a'r buddion hynny lle mae'n bosibl cyflwyno achos clir.

3.1 Buddion i fusnesau

3.1.1 Mae defnyddwyr yn rhoi gwerth ar wahaniaethu rhwng cynhyrchion ar sail ddaearyddol

Un o brif fuddion cyflwyno TLDs ddaearyddol i fusnesau yw'r gwerth y gallai busnesau ei gael yn sgil gwahaniaethu rhwng cynhyrchion ar sail ddaearyddol. Mae astudiaeth gan Menapace et al. (2009) yn archwilio a yw defnyddwyr yn rhoi gwerth ar yr wybodaeth a geir ar wahanol fathau o labeli sy'n cyfeirio at darddiad ddaearyddol ac sy'n nodi tarddiad cynhyrchion terfynol, mewnbynnau neu brosesau cynhyrchu. Yn ôl eu dadansoddiad, dylai labeli tarddiad ddaearyddol fod yn werthfawr i ddefnyddwyr, gan eu bod yn rhoi awgrym iddynt ynglŷn â safon ddisgwylidig y cynnyrch, yn eu gwneud yn llai ansicr ac yn eu galluogi i weld a yw ansawdd y cynnyrch mewn gwirionedd yn cyfateb i'r hyn maent yn dymuno'i gael.

O ran cynnyrch amaethyddol, gwelir tystiolaeth bod defnyddwyr sy'n dewis o blith gwahanol cynhyrchion sy'n tarddu o'r un wlad yn ffafrio cynhyrchion â labeli sy'n dangos eu tarddiad ddaearyddol ac sy'n nodi'n benodol o ba ranbarth neu dre y daethant yn hytrach na nwyddau sydd heb eu labelu. Yn benodol, roedd yn well gan 70 % o'r atebwyr nwyddau sydd wedi'u labelu na nwyddau sydd heb eu labelu, ac roedd eu parodrwydd ychwanegol i dalu am gynhyrchion â label arnynt yn arwyddocaol o gadarnhaol (Menapace et al., 2009). Gan fod defnyddwyr i bob golwg yn rhoi gwerth ar wahaniaethu rhwng cynhyrchion ar sail ddaearyddol a'u bod yn barod i dalu prisiau uwch am y cynhyrchion hynny, fe allai busnesau fod ar eu hennill drwy dynnu sylw atynt eu hunain gyda help TLDs ddaearyddol.

3.1.2 Mae'n well gan ddefnyddwyr opsiynau lleol

At hynny, mae'n bosibl bod TLDs ddaearyddol yn cynyddu gwerthiant drwy ymateb i'r ffaith bod defnyddwyr yn ffafrio nwyddau a gwasanaethau lleol. Dengys gwaith ymchwil blaenorol bod defnyddwyr yn dangos eu bod yn ffafrio gwasanaethau lleol yn y ffordd y byddant yn ymchwilio ac yn siopa ar lein. Yn yr Unol Daleithiau, roedd 97 % o'r rhai a holwyd mewn astudiaeth gan BIA/Kelsey a ConStat yn defnyddio cyfryngau ar-lein i ymchwilio i gynnnyrch neu wasanaethau yn eu hardal leol (BIA/Kelsey, 2010).

O ran ymddygiad siopa ar lein, wrth ddadansoddi ddaearyddiaeth manwerthu ar lein yn yr UDA, mae Ellison a Fisher Ellison (2006) yn gweld tystiolaeth fod defnyddwyr yn ffafrio'n sylwedol prynu gan fanwerthwyr ar y Rhyngrwyd sydd yn eu talaith hwy eu hunain.

Mae ein hymchwil ni ein hunain yn cadarnhau'r hyn sydd orau gan ddefnyddwyr o ran prynu'n lleol. Yng Nghymru, credir bod y ffaith bod defnyddwyr yn ffafrio "prynu'n lleol" wrth brynu bwyd yn bwysig a hefyd, yn yr un modd, y ffaith bod twristiaid yn ffafrio hynny hefyd, yn enwedig ar ben uchaf y farchnad dwristiaeth. Mae nwyddau diwylliannol a chynnwys creadigol hefyd yn debygol o fod yn feysydd lle mae'r effaith leol hon yn bwysig. Yn yr achosion hyn, fe allai TLD ddaearyddol i Gymru atgyfnerthu brandio lleol o fathau eraill.

Nid oes amcangyfrifon cadarn ar gael ar gyfer gwerth posibl ffafrio'r lleol i fusnesau yng Nghymru, ond petai effaith o'r fath (yn sgil TLD i Gymru) yn cynyddu'r trosiant 1 % yn niwydiant Gweithgynhyrchu a Phrosesu Bwyd a Diod yng Nghymru'n unig, er enghraift, byddai hyn yn cyfateb i gynnydd blynyddol o £17m mewn gwerthiannau.⁷

⁷ Seilir hyn ar gyfanswm trosiant blynyddol yng Nghymru ar gyfer y sector hwn, sef £1.7biliwn. Ffynhonnell: Improve (2010).

Tystiolaeth arolwg LE Wales ymhllith busnesau

Mae nifer sylweddol o fusnesau yng Nghymru, yn ôl arolwg a gynhaliwyd ymhllith 250 o uwchbenderfynwyr mewn sefydliadau yng Nghymru, yn disgwl gweld budd hyrwyddol yn sgil TLD daearyddol penodol i Gymru. Fel y dengys y tabl isod, disgwlir i effaith hyrwyddol TLDs daearyddol i Gymru fod ar ei chryfaf yng Nghymru ei hun, gyda 42 % a 38 % o'r atebwyr yn y drefn honno'n dweud eu bod yn credu y byddai ".cymru" a ".wales" yn helpu i hyrwyddo'u busnesau yng Nghymru. Disgwylir y byddai cyfeiriad ".wales" yn arbennig o ddefnyddiol i hyrwyddo'r brand y tu allan i Gymru, gydag oddeutu traean yr atebwyr yn gweld buddion o ran hyrwyddo'u busnes naill ai yn y Deyrnas Unedig (y tu allan i Gymru) neu'n rhwngwladol.

Tabl 2: Disgwyliadau busnesau o ran buddion TLD daearyddol i Gymru

	.wales	.cymru	.cymru-wales	dim o'r rhain
Gallai TLD daearyddol i Gymru helpu i hyrwyddo fy musnes yng Nghymru	37.7 %	42.1 %	27.4 %	36.1 %
Gallai TLD daearyddol i Gymru helpu i hyrwyddo fy musnes i'r rheini y tu allan i Gymru	33.3 %	19.8 %	20.6 %	52.4 %
Gallai TLD daearyddol i Gymru helpu i hyrwyddo fy musnes yn rhwngwladol	31.0 %	21.0 %	21.0 %	54.0 %
Byddai TLD daearyddol i Gymru'n gelynnaethu fy nghwsmeriaid y tu allan i Gymru	16.7 %	31.7 %	21.0 %	62.7 %
Ni fyddai TLD daearyddol i Gymru'n effeithio ar fy musnes	26.6 %	20.2 %	21.0 %	65.5 %

Nodyn: N =250.

Ffynhonnell: Arolwg busnesau LE Wales (Hydref 2011)

Mae 'na dystiolaeth hefyd y gallai effaith ddisgwylledig parth ".wales" amrywio'n sylweddol o'r naill sector i'r llall. Yn ein sampl, mae'r rhai a atebodd o'r sector gwestai a bwyta'i'n disgwl gweld effeithiau cadarnhaol arbennig o grif. Yma, mae mwyafrif mawr o'r atebwyr (70 %) yn disgwl y byddai ".wales" yn hyrwyddo'u busnes y tu allan i Gymru. Sylwer, fodd bynnag, fod maint y sampl yn fychan iawn (13), sy'n golygu mai awgrym yn unig yw'r canlyniadau hyn.

Tabl 3: Disgwyliadau busnesau o ran buddion yn sgil cael TLD daearyddol i Gymru – sector gwestai a bwyta'i

	.wales	.cymru	.cymru-wales	dim o'r rhain
Gallai TLD daearyddol i Gymru helpu i hyrwyddo fy musnes yng Nghymru	53.8 %	53.8 %	38.5 %	15.4 %
Gallai TLD daearyddol i Gymru helpu i hyrwyddo fy musnes i'r rheini y tu allan i Gymru	69.2 %	23.1 %	38.5 %	23.1 %
Gallai TLD daearyddol i Gymru helpu i hyrwyddo fy musnes yn rhwngwladol	69.2 %	23.1 %	38.5 %	23.1 %
Byddai TLD daearyddol i Gymru'n gelynnaethu fy nghwsmeriaid y tu allan i Gymru	7.7 %	38.5 %	15.4 %	61.5 %
Ni fyddai TLD daearyddol i Gymru'n effeithio ar fy musnes	15.4 %	15.4 %	15.4 %	69.2 %

Nodyn: N =13. Ffynhonnell: Arolwg busnesau LE Wales (Hydref 2011)



3.1.3 Gall TLDs daearyddol feithrin ymddiriedaeth defnyddwyr

Drwyddi draw, mae ein harolwg yn dangos bod cyfran sylweddol o fusnesau yng Nghymru'n gweld TLD newydd i Gymru'n gyfle iddynt hwy eu hunain, a hynny yng Nghymru ac yn y byd tu allan. Er bod ".cymru" yn cael ei weld yn ddeniadol o fewn Cymru'n bennaf, disgwyli'r ".wales" ddwyn mwy o fuddion o ran hyrwyddo busnesau Cymru i gwsmeriaid rhyngwladol. Gall TLDs daearyddol feithrin ymddiriedaeth defnyddwyr.

Mae'r ffaith bod defnyddwyr yn amheus ynglŷn â diogelwch trafodion ar y Rhyngrywd yn rhwystr mawr sy'n eu hatal rhag defnyddio'r Rhyngrywd i brynu nwyddau. Mae hyd at draean y bobl hynny na fyddant yn prynu ar y Rhyngrywd yn dweud mai pryderon ynglŷn â diogelwch trefniadau talu, pryderon ynglŷn â phreifatrwydd a phryderon ynglŷn â gweithdrefnau cwyno a chael iawn a diffyg ymddiriedaeth gyffredinol sy'n eu hatal rhag masnachu ar lein (London Economics, 2011).

O ganlyniad, un o fanteision busnesau'n cofrestru ar gyfer TLDs daearyddol newydd efallai fyddai cynnydd posibl yn nifer y gwerthiannau i gwsmeriaid a oedd, cyn i'r cwmnïau gofrestru, yn amharod i brynu o ffynonellau ar-lein oherwydd eu diffyg ymddiriedaeth.

Tabl 4: Rheswm dros beidio â defnyddio'r Rhyngrywd i archebu nwyddau neu wasanaethau yn y 12 mis diwethaf (EU-27, 2009)

Rhesymau dros beidio â phrynu neu archebu dros y Rhyngrywd	% o unigolion na fyddant yn prynu nac yn archebu dros y Rhyngrywd
Gwell ganddynt fynd i siop eu hunain	62
Dim angen	52
Pryderu ynglŷn â diogelwch y drefn talu	35
Pryderu ynglŷn â phreifatrwydd	29
Pryderu ynglŷn ag ymddiriedaeth, cwyno neu gael iawn	26
Diffyg sgiliau	16
Ddim yn berchen ar gerdyn talu	12
Rhesymau eraill	11
Danfon y nwyddau	10
Diffyg gwybodaeth am y cynhyrchion	8
Cysylltiad y rhyngrywd yn rhy araf	3

Ffynhonnell: Eurostat


Am fod defnyddwyr yn rhoi gwerth ar allu cyfathrebu â chwmnïau sy'n cynnig nwyddau a gwasanaethau ar y Rhyngrywd, rhag ofn bod anawsterau'n codi gyda'u trafodion ar-lein (London Economics, 2011), mae'n bosibl y byddant yn ymddiried mwy mewn gwefannau y mae eu part yn dangos eu bod yng nghyffiniau eu lleoliad hwy eu hunain. Yn wir, dywedodd 28% o uwch-benderfynwyr cwmnïau yng Nghymru a holwyd yn ein harolwg mai cryfhau ymddiriedaeth cwsmeriaid lleol yn eu busnesau fyddai un o brif fuddion cyflwyno part i Gymru. Gallai cryfhau ymddiriedaeth pobl fel hyn annog cwsmeriaid a oedd gynt yn gwrthod prynu ar lein i ddod yn ddefnyddwyr o'r newydd ar wasanaethau ar-lein cwmnïau lleol. Gallai hyn greu budd net i'r economi petai cyfran fwy o drafodion ar-lein yn mynd law yn llaw â gwell effeithlonrwydd, e.e.

drwy arbedion maint. Mewn arolwg ymhliith defnyddwyr y Rhyngryd yng Nghymru a gynhaliwyd fel rhan o'n hymchwil, cadarnhawyd y byddai TLDs newydd yn cael effaith fesuradwy ar eu hymddiriedaeth. Gallai agwedd Gymraeg ei hiaith TLD daearyddol i Gymru gryfhau nodwedd gwella ymddiriedaeth y TLD daearyddol gan ei bod yn cynnig prawf ychwanegol o darddiad lleol y cynwys.

Tystiolaeth arolwg LE Wales ymhliith defnyddwyr

Er mwyn gweld beth fyddai effaith bosibl ".wales" ar ymddiriedaeth defnyddwyr, gofynnodd ein harolwg defnyddwyr i'r atebwyr i ba raddau y byddai cyfeiriad ".wales" yn cryfhau eu hymddiriedaeth yn nilysrwydd a diogelwch gwefan, ar yr amod mai dim ond i fusnesau go iawn yng Nghymru y byddai cyfeiriad o'r fath ar gael. Crynhoir yr atebion a fynegwyd ar raddfa o 1 i 5 yn Ffigur 2 isod.


Ffigur 2: I ba raddau y byddai cyfeiriad ".wales" yn cryfhau eich ymddiriedaeth yn nilysrwydd a diogelwch gwefan? (Sampl lawn)



Ffynhonnell: Arolwg defnyddwyr LE Wales

Dylid nodi bod nifer sylweddol o ddefnyddwyr yn amheus yngylch y buddion (mae 35 % yn dweud na fyddent yn ymddiried mwy o gwbl) ond dewisodd mwy nag un o bob pump o'r atebwyr i gyd un o'r ddau ddewis uchaf (4 a 5) sy'n awgrymu y byddai eu hymddiriedaeth yn cryfhau'n sylweddol. Mae'n anodd dirnad sut y byddai mwy o ymddiriedaeth yn trosi'n fwy o ddefnydd ar y Rhyngryd ar gyfer trafodion masnachol. Mae'r gwerth trothwy, h.y. lefel yr ymddiriedaeth y mae ei hangen er mwyn niwtraleiddio pryderon pobl a) yn anhysbys a b) yn debygol o amrywio o'r naill unigolyn i'r llall. At hynny, gan mai arolwg ar-lein oedd hwn, mae'n debygol bod yr atebwyr hyn yn hyderus yn defnyddio'r Rhyngryd ac felly mae'n bosibl na fyddai eu safbwytiau'n cynrychioli safbwytiau'r rheini nad ydynt yn prynu pethau ar lein ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y ceid darlun mwy realistig drwy edrych yn unig ar atebwyr nad ydynt yn gwario rhyw lawer ar lein. Yn ein sampl, ceir 30 % o ddefnyddwyr sy'n prynu gwerth £0.00 – £9.99 y mis ar gyfartaledd ar y Rhyngryd. Er bod eu hymateb hwy i ".wales" yn wannach, roedd 19 % ohonynt yn dal i ddewis y ddau opsiwn uchaf (Ffigur 3). Drwyddi draw, mae'r atebion yn dangos cynnydd yn ymddiriedaeth pobl pan fyddant yn wynebu cynnig newydd megis TLD ".wales" ac mae hyn yn awgrymu posibilrwydd cryf o fudd economaidd gwirioneddol.

Figure 3: I ba raddau y byddai cyfeiriad “.wales” yn cryfhau eich ymddiriedaeth yn nilysrwydd a diogelwch gwefan? (Unigolion sy’n gwario £0.00 – £9.99 y mis ar lein)



Ffynhonnell: Arolwg defnyddwyr LE Wales

Drwyddi draw, mae hyn yn awgrymu bod tua un ymhob pump o'r defnyddwyr, gan gynnwys y rheini nad ydynt ond yn gwario ychydig neu'n gwario dim ar lein (h.y. y rhai nad ydynt yn ymddiried rhyw lawer ynddo efallai) yn dweud y byddai'r parth newydd yn cryfhau eu hymddiriedaeth. Gan fod rhwng chwarter a thraean o'r defnyddwyr yn dewis peidio ag ymwneud ag e-fasnach ar hyn o bryd oherwydd eu diffyg ymddiriedaeth ynddi, mae'r canlyniadau'n awgrymu y gellid ehangu'r farchnad ar-lein hyd at oddeutu 7% drwy gryfhau ymddiriedaeth un rhan o bump o'r boblogaeth. Yng Nghymru, gan dybio bod traeon o'r 1.1 miliwn o aelwydydd sydd â'r Rhyngrwyd gartref yn gyndyn o wneud trafodion ariannol ar lein, byddai cynnydd o 20% yn y nifer y bobl a fyddai'n dechrau gwneud hynny petai gwerthwyr yn defnyddio cyfeiriad ".wales" yn golygu y byddai bod 335,000 o aelwydydd ychwanegol yn ymwneud â'r farchnad ar-lein.

3.1.4 Ar-lein yn ategu all-lein

Bydd defnyddwyr yn defnyddio ymchwil ar-lein i ategu eu siopa all-lein. Felly, gellid disgwyl y byddai ffafrio gwybodaeth leol ar-lein yn trosi'n naturiol yn werthiannau lleol mewn siopau (yn ogystal â ffafrio manwerthwyr ar-lein sydd â brand lleol). Gwelir tystiolaeth o hyn yn y gymhareb Ymchwil Ar-lein Prynu All-lein (ROPO) a phrynu ar-lein. Yn UDA, yr Almaen, Ffrainc, Brasil ac India, amcangyfrifir fod y gymhareb hon yn amrywio o 0.9 ac 1.5 yn 2009 (McKinsey, 2011). Ar gyfer y Deyrnas Unedig, lle yr amcangyfrifwyd bod foliwm y pryniannau ar-lein yn £50 biliwn (2009)⁸ mae hyn yn awgrymu pryniannau all-lein sy'n cael eu galluogi drwy ymchwil ar y Rhyngrwyd sy'n werth rhwng £45 biliwn a £75 biliwn y flwyddyn. O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r astudiaethau hyn yn awgrymu y gallai cyflwyno TLDs daearyddol, drwy ganiatáu gwahaniaethu daearyddol rhwng gweffannau ar-lein, gynyddu gwerthiannau ar-lein a gwerthiannau all-lein y busnesau hynny, ac y byddai'n gwneud mwy na dim ond dargyfeirio gwerthiannau o'r siopau all-lein i'r byd ar-lein.

⁸ Boston Consulting Group (2010). The Connected Kingdom: how the Internet is transforming the UK economy.

‘Gallai parth i Gymru a oedd yn darparu ar gyfer y Gymraeg gynyddu’r momentwm o blaid cydnabyddiaeth i’r iaith ar draws gofod y Rhyngrwyd.’



Mae’r berthynas hon rhwng gwerthiannau ar-lein ac all-lein yn bwysig ac mae angen ei hystyried yn fanylach. Mae cyfyngiadau ar eu cyllideb yn cyfyngu ar y ffordd y bydd defnyddwyr yn ymddwyn wrth brynu pethau, a phrisiau ac incwm yr unigolyn fydd yn penderfynu hynny gan mwyaf. Oherwydd y cyfyngiad hwn, fe allai’r cynnydd posibl y cyfeiriwyd ato uchod yng ngwerthiannau ar-lein busnesau ar ôl iddynt gofrestru ar gyfer TLD lleol ddigwydd ar draul gostyngiad yng ngwerthiannau cwmniâu nad oes ganddynt wefan neu’r rhai sydd â TLDs traddodiadol. Hynny yw fe allai defnyddwyr benderfynu symud o’r naill gwmni at y llall. Ni fyddai hynny’n cael dim effaith net ar yr economi. Serch hynny, o leiaf wrth ystyried y berthynas rhwng prynu ar-lein a phrynu all-lein, mae’r dystiolaeth empirig yn awgrymu bod perthynas gadarnhaol rhwng maint y farchnad all-lein a’r cynnwys lleol ar-lein, ac mae’n awgrymu bod yr olaf o’r ddau’n denu defnyddwyr i gysylltu â’r farchnad ar-lein (Sinai a Waldfogel, 2004).

O’u hystyried gyda’i gilydd, mae’r ddwy gydberthynas hyn yn awgrymu y gallai gwerthiannau ar-lein ategu gwerthiannau all-lein ar yr amod bod y cynnwys ar-lein sydd wedi’i dargedu’n lleol yn ddigon deniadol (Sinai a Waldfogel, 2004). A thybio bod defnyddio TLDs daearyddol yn gwneud cynnwys ar-lein lleol busnesau’n fwy deniadol i’w cwsmeriaid, yna, efallai nad yw’n anochel y byddai’r gwerthiannau ar-lein ychwanegol posibl yn dod ar draul gwerthiannau all-lein. Yn wir, fe allent eu hategu.

Un budd posibl olaf i ddefnyddwyr fyddai’r ffaith bod yr hyn y mae manwerthwyr yn ei gynnig ar y we’n aml yn ategu’r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn eu siopau. Er enghraifft, bydd manwerthwyr sy’n cynnig trafodion ar-lein hefyd yn darparu gwasanaethau i’w cwsmeriaid ar ôl iddynt brynu, megis opsiynau i ddychwelyd nwyddau, yn eu siopau all-lein (Sinai a Waldfogel, 2004). Drwy helpu i gyfatebu cwsmeriaid lleol a busnesau’n well, gallai TLDs daearyddol hwyluso cyd-ddefnyddio gwasanaethau ar-lein ac all-lein i ddefnyddwyr, a byddai hynny’n dod â buddion ychwanegol iddynt.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod gwerthiannau e-fasnach yn 2009 ar draws y Deyrnas Unedig yn werth £408.3 biliwn.⁹ Roedd hyn yn cynnwys £115.0bn o werthiannau drwy wefannau; a rhoddwyd gwerth o £293.3bn ar werthiannau e-fasnach nad oeddent drwy wefannau (e.e. cyfnewid data electronig). Nid oes amcangyfrif ar wahân ar gael ar gyfer Cymru, ond petai fwy neu lai'n gyfrannol i'r boblogaeth (4.8%) yna, fe allai cyfanswm y gwerth fod yn £19.6bn. Petai cael part ar wahân i Gymru'n cynyddu gwerthiannau e-fasnach 1%, er enghraifft, yna, byddai hyn yn cyfateb i gynyddu'r gwerthiannau £195m.

3.1.5 Mae cystadleuaeth yn gwneud y farchnad TLDs yn fwy effeithlon

Gallai busnesau sy'n cofrestru naill ai ar gyfer y parthau lefel uchaf sy'n bodoli eisoes neu ar gyfer y TLDs daearyddol newydd fod ar eu hennill hefyd yn sgil gwella'u gwasanaethau i gwsmeriaid a phrisiau is gan eu cofrestrfeydd, oherwydd bod mwy o gystadleuaeth yn y farchnad cofrestru. Mae'n bosibl y byddai darparwyr TLDs daearyddol, gan gynnwys darparwyr newydd sy'n camu i'r farchnad cofrestru, yn gwneud ymdrechion sylweddol i sefydlu enw da eu brand a rhwydwaith o gofrestryddion, gan bwysleisio'r gwasanaeth y gallent ei gynnig i'r cwsmeriaid sy'n cofrestru gyda hwy (EURid, 2010). Bydd yr ymdrechion hynny, yn eu tro, yn rhoi rhagor o bwysau cystadleuol ar y cofrestrfeydd sy'n bodoli eisoes, gan eu cymell i ddilyn yr un trywydd a gwella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu ar gyfer eu cwsmeriaid.

Mae tystiolaeth ynglŷn â'r budd possb hwn i'w gweld yn sgil y profiad a gafwyd pan gyflwynwyd TLDs newydd ddechrau'r 2000au. Pan agorwyd y farchnad cofrestru ar gyfer TLDs generig,

⁹ ONS (2010).

gwelwyd cynnydd sylweddol yn ystod y gwasanaethau a gynigid gan weithredwyr y cofrestrfeydd. Yn benodol, oherwydd cystadleuaeth gynyddol yn y farchnad, dechreuodd cofrestrfeydd gyfuno cofrestru enw part hâ gwasanaethau rhyngrywd eraill, megis lletya gwefannau neu wasanaethau creu (OECD, 2004).

3.1.6 Mae TLDs newydd yn golygu gwell enwau

Mae'r cyflenwad o enwau part sy'n fyr, yn ddisgrifiadol ac yn gofiadwy'n brin. Ar hyn o bryd, mae dros 25 miliwn o dudalennau gwe ym mhARTH ".co.uk" sy'n cynnwys y gair "Wales" neu "Cymru" yn yr URL.¹⁰ Mae hyn yn golygu y gall fod yn anodd iawn i fusnes newydd ddod o hyd i enw sy'n cyfeirio at Gymru ac sy'n hawdd ei gofio. Er bod defnyddio chwilotwyr yn lliniaru'r broblem (gan nad oes angen i ddefnyddwyr gofio cyfeiriadau gwe unigol), nid yw hyn yn golygu nad oes angen enwau part da. Un enghraift o hyn yw pwysigrwydd posibl y cwlwm ar-lein - all-lein, yn enwedig i fusnesau lleol bychain. Yn ôl y rhai sydd o blaid TLD daearyddol i Ddinas Efrog Newydd, "Mae'n ddigon posibl bod lle i "Joesbar.nyc" ar yr arwydd honno uwchben y drws, ond go brin bod 'na le i "JoesbarinNewYorkCity.com."¹¹ Gallai TLDs newydd lliniaru'r broblem a gwneud marchnata ar-lein ac all-lein cwmnïau'n fwy deniadol.

3.2 Buddion i gwsmeriaid

3.2.1 Buddion wrth chwilio

Bydd defnyddwyr yn cyrchu gwefannau drwy: gofio cyfeiriadau gwe: clicio 'dolenni' defnyddio 'nodau tudalennau' a rhestrau 'ffefrynnau'; neu byddant yn defnyddio chwilotwr.

Mewn gwaith dadansoddi ar gyfer Google (2008) gwelwyd bod 73% o gwsmeriaid ar-lein yn y Deyrnas Unedig yn defnyddio chwilotwyr i ymchwilio i gynhyrchion ar lein. Mae chwilotwr eisoes yn perfformio'n dda o ran chwilio am wefannau lleoliad-benodol ac mae gwefestri'n gallu 'geo-dargedu' eu safleoedd drwy sawl gwahanol ddull. Gyda threigl amser, fe allai TLD daearyddol i Gymru wella chwiliadau sy'n berthnasol i Gymru eto fyth wrth i algorithmau chwilio gael eu haddasu er mwyn ystyried unrhyw werth sydd ynghlwm wrth yr wybodaeth ychwanegol a ddarperir drwy'r TLD daearyddol. Mae TLD daearyddol yn fwy tebygol o ddarparu gwerth yn y cyswllt hwn na TLD sy'n seiliedig ar iaith. Lle bydd defnyddwyr yn defnyddio nodweddion chwilio manylach, fe allent hefyd gyfyngu'r chwiliadau i TLD daearyddol i Gymru gan wella'r targedu ar gyfer deunydd seiliedig ar Gymru yn y modd hwnnw.

Os bydd defnyddwyr yn chwilio am wefannau mewn iaith benodol, nid yw chwilotwyr yn perfformio'n dda ar hyn o bryd, y tu allan i'r ccTLD perthnasol, oni ddefnyddir nodweddion chwilio'n fanylach. Gellir defnyddio'r rhain mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, gallai defnyddwyr gyfyngu'r chwilio i dudalennau sydd mewn iaith benodol. Mae modd gwneud hyn ar gyfer 46 iaith yn Google ar hyn o bryd, ond nid yw'r Gymraeg yn un o'r rheini. Yn ail, gallai defnyddwyr gyfyngu'r chwilio i TLD sy'n benodol o ran iaith, er y byddai hyn yn golygu methu gwefannau sydd yn yr iaith honno ar TLDs eraill. Y peth agosaf at TLD iaith-benodol ar hyn o bryd yw ".cat". Y ffordd fwyaf cywir o wella'r chwilio am wefannau Cymraeg gan ddefnyddio chwilotwr Google fyddai ychwanegu Cymraeg at restr ieithoedd Google. Gallai part hâ Gymru a oedd yn darparu ar gyfer y Gymraeg gynyddu'r momentwm o blaid cydnabyddiaeth i'r iaith ar draws gofod y Rhyngrywd. Yn y modd hwnnw, gallai ei gwneud yn fwy tebygol y byddai'r Gymraeg yn cael ei hychwanegu at y 46 o ieithoedd sydd ar restr Google ar hyn o bryd.

Ar wahân i ddefnyddio chwilotwyr i wneud ymchwil ar lein, dywed 69 % o ddefnyddwyr y Deyrnas Unedig eu bod yn defnyddio gwefannau manwerthwyr a 49 % eu bod yn defnyddio gwefannau gwneuthurwyr i ddod o hyd i wybodaeth am gynhyrchion neu wasanaethau ar y Rhyngryw (Google, 2008). I'r defnyddwyr hynny, mae'n ymddangos y byddai cyflwyno parthau lefel uchaf daearyddol yn ddefnyddiol, gan y bydd y parthau newydd yn gwella llywio drwy'r Rhyngryw drwy roi mwy o le i gyfeiriadau gwe mwy cofiadwy.

Mae hyn yn golygu y bydd yn haws i ddefnyddwyr ddod o hyd i wefannau heb ddefnyddio chwilotwr. Maen bosibl y byddant hefyd yn tywys defnyddwyr o ran pa URL i'w ddewis ar restr gyntaf canlyniadau chwilotwr.

3.2.2 Buddion brandio

Fel y nodwyd uchod, mae cyfeirio daearyddol yn gyfrwng marchnata a gwybodaeth bwysig i fusnesau, ond mae defnyddwyr yn rhoi gwerth ar hyn hefyd:

- Yn gyntaf, fe all brandio gynnig rheolaeth ansawdd neu yswiriant i ddefnyddwyr. Mae llenyddiaeth economeg yn pwysleisio bod bwlch gwybodaeth sylweddol rhwng cyflenwr cynnyrch a defnyddiwr y cynnyrch hwnnw os na all y cwsmer ond fesur gwir ansawdd y cynnyrch ar ôl iddo'i brynu. Yn y cyswllt hwn, drwy fuddsoddi yn enw da ei frand, gall cwmni ddangos ansawdd ei gynhyrchion i gwsmeriaid a gwarantu iddynt na fydd yn eu twyllo drwy gyflenwi cynhyrchion o safon isel, oherwydd, fel arall, byddai'n colli gwerth ei fuddsoddiad. Felly, mae'r buddsoddiad ei hun yn troi'n rhyw fath o warchodaeth i ddefnyddwyr.
- Yn ail, mae brandio'n gyfrwng gwybodaeth i ddefnyddwyr, sy'n eu gwneud yn fwy ymwybodol o'r cynhyrchion ar y naill law, ac yn cryfhau'r gwahaniaeth rhyngddynt ar y llall. Felly, fe allai dulliau brandio daearyddol, megis defnyddio TLDs daearyddol ar gyfer gwefannau busnesau fod yn ddefnyddiol iawn i gwsmeriaid.

Mae'n anodd mesur gwerth y buddion hyn ac nid ydym wedi gweld dim astudiaethau blaenorol sy'n ceisio'u mesur. Petai'r brandio gwell a ddeuai yn sgil parth i Gymru'n arwain at gynnydd o 1 % yng ngwariant blynnyddol twristiaid Prydain Fawr a rhai tramor yng Nghymru, yna byddai hyn yn cyfateb i gynnydd o £17.7m mewn gwariant yn y sector twristiaeth.¹²

3.2.3 Buddion defnyddio trafodion ar-lein

Gallai TLDs daearyddol newydd sy'n canolbwytio mwy ar y lleol gryfhau ymddiriedaeth defnyddwyr mewn trafodion ar y Rhyngryw (gweler uchod) a thrwy hynny ehangu'r nifer sy'n e-fasnachu, boed hynny oherwydd eu bod yn ymateb yn emosiyol i werthwr ar-lein sydd â mwy o flas lleol iddo neu oherwydd eu bod yn teimlo'n fwy sicr ynglŷn â'u hawliau fel defnyddwyr a'r opsiynau gwneud iawn. Fe allai hyn fod yn ffynhonnell budd sylweddol, oherwydd bod siopa arlein yn cynnig manteision amlwg i ddefnyddwyr o ran hwylustod, dewis a phrisiau is yn sgil arbedion maint a chwmpas.

Yn yr un modd, fe all y berthynas gadarnhaol y cyfeiriwyd ati uchod rhwng cynnwys lleol ar-lein a thuedd defnyddwyr i gysylltu â'r Rhyngryw (Sinai a Wldfogel, 2004) arwain at fudd oherwydd

¹⁰ Yn seiliedig ar chwilio uwch yn Google am y geiriau "Cymru" a "Wales" mewn URLs yn y parth ".co.uk".

¹¹ Cyngor y Ddinas, Dinas Efrog Newydd (2009).

¹² Seilir hyn ar wariant yng Nghymru gan dwristiaid o Brydain sef £1,450m yn 2010 a chan dwristiaid tramor yng Nghymru sef £321m yn 2009. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2010 a 2011),

bod mwy o ddefnydd ar y Rhyngrywd. Mae adroddiad McKinsey Global Institute (2011) ar faint effaith y Rhyngrywd ar economi'r byd yn dweud bod y We Fyd Eang yn dwyn gwarged sylweddol i ddefnyddwyr, a hynny y tu hwnt i'w ddylanwad cadarnhaol ar dwf economaidd, creu swyddi a chreu cyfoeth. Canfu'r astudiaeth dystiolaeth o warged misol gwerth €20 i ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig, sy'n werth cyfanswm blynnyddol o €9 biliwn. Mae hynny'n deillio o ddefnyddwyr yn defnyddio'r Rhyngrywd, yn enwedig e-bost, rhwydweithio cymdeithasol, cyfleusterau chwilio a gwasanaethau archebu lle ar lein.¹³ Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu y gallai defnyddio'r Rhyngrywd arwain at warged blynnyddol i ddefnyddwyr yng Nghymru gwerth £270m.¹⁴ Felly, wrth gyflwyno TLDs daearyddol, a bod hynny o bosibl yn gwneud cynnwys ar-lein lleol yn fwy hygrych ac yn sgil hynny'n fwy deniadol i gwsmeriaid, fe allai hynny olygu bod mwy o ddefnydd ar y Rhyngrywd, ac o ganlyniad, gynnnydd yn y gwarged i ddefnyddwyr.

Y pwynt allweddol yw bod unrhyw gynnnydd yn y Rhyngrywd yn arwain at fwy o fudd i ddefnyddwyr am ei fod yn cynnig mwy o hwylustod, nwyddau a gwasanaethau rhatach, mwy o amrywiaeth o ran gwybodaeth, ac ati.

3.3 Cwmpas ymateb defnyddwyr i TLD i Gymru

3.3.1 Ffafrio TLD i Gymru

Mae budd economaidd allweddol TLDs daearyddol newydd yn debygol o fod ynghlwm wrth eu gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau defnyddwyr, h.y. eu heffaith ar frandio (gweler uchod y mechanweithiau y gallai'r agwedd ddaearyddol eu defnyddio i gryfhau profiad y defnyddwyr). A chofio mai un rhan fechan iawn o ymdrechion brandio cwmniau fydd URLs fel rheol, mae'n anodd gwybod yn iawn beth fydd effaith hynny ac mae'n anodd ei mesur yn fanwl. Er mwyn goresgyn yr anhawster hwn, rydym wedi dewis dull sy'n ceisio efelychu sut y bydd defnyddwyr yn ymddwyn go iawn ar lein, drwy orfodi ymatebwyr i ddewis rhwng cyfeiriad ".wales" neu ".cymru") generig a rhyw ddewis arall. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Hydref 2011 gan ddefnyddio sampl o 1,003 o unigolion (gan gynnwys 21 % a oedd yn siarad Cymraeg).

Bwriad y cwestiwn yw ail-greu'r math o benderfyniad y bydd pobl yn ei wynebu wrth edrych ar dudalen canlyniadau chwilotwr. Mae'r ymchwil wedi dangos bod defnyddwyr fel rheol yn dewis y canlyniad cyntaf neu'r ail ar y dudalen gyntaf ac mai anaml y byddant yn edrych ar ganlyniadau y tu hwnt i'r dudalen gyntaf. Felly, i bob golwg, mae'n beth call modelu'r dewis rhwng ".wales" neu ".cymru" a chyfeiriad arall fel dewis deul rhwng dau gyfeiriad sydd yng ngolwg y defnyddiwr yr un mor berthnasol â'i gilydd (gan eu bod ar frig rhestr canlyniadau'r chwiliad).

Blwch 1: Beth oedd orau gan bobl yn arolwg defnyddwyr LE Wales

Mae'n bosibl y bydd cyfeiriadau Rhyngrywyd sy'n gorffen gyda .wales ar gael o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Dim ond i sefydliadau sydd â phresenoldeb yng Nghymru y byddai'r cyfeiriadau hyn ar gael. Ym mhob cyswllt arall, byddent yn gweithio'n union fel y cyfeiriadau Rhyngrywyd sydd ar gael ar hyn o bryd.

Dychmygwch eich bod yn defnyddio'r Rhyngrywyd fel y disgrifir uchod i ymchwilio i gynhyrchion neu wasanaethau, i brynu nwyddau arlein, i archebu lle ac ati, a'ch bod yn dod ar draws dwy wefan wahanol sydd i bob golwg yn cynnig yr hyn rydych yn chwilio amdano.

 mysite-cymru.co.uk

 mysite.cymru

Ar ba un y byddai'n well gennych chi glicio?

Nodyn: Dewisodd hanner yr ymatebwyr rhwng cymriaethau wedi'u seilio ar ".wales" a dewisodd hanner rhwng cymriaethau wedi'u seilio ar ".cymru". Amrywiwyd y dewis o TLD a gynigiwyd yn lle ".wales" neu ".cymru" (".co.uk" yn yr enghraffit uchod) ar draws yr ymatebwyr, a'r dewisiadau eraill a gynigiwyd oedd ".com", ".net" ac ".org".

Bwriedir i'r dasg dewis hefyd ddatgelu agwedd pobl at ddwy wefan generig "ar thema Cymru": "mysite-wales.co.uk" neu "mysite-cymru.co.uk" [.org/.net/.com] a "mysite.wales" (neu "mysite.cymru"). Rhoddyd y dewis "mysite.wales" i hanner yr ymatebwyr a "mysite.cymru" i'r hanner arall. Dewiswyd y dull hwn oherwydd:


- Gall cwmnïau eisoes ddefnyddio'r elfen destun "Wales" neu "Cymru" yn eu URL. A dweud y gwir, mae llawer o fusnesau eisoes yn defnyddio cyfeiriadau daearyddol yn URLs eu gwefan (gweler Ffigur 4). Rydym yn tybio y gall busnesau sy'n gweld mantais cyfeirio at Gymru yn eu cyfeiriad gwe fod yn gwneud hynny eisoes (er y gall enwau trwsgl arwain at dagfa yn y parthau).
- Gallai cymharu "mysite.com" a "mysite.wales" neu "mysite.cymru" arwain at ganlyniadau camarweiniol. Yn aml iawn, nid oes gan ddefnyddwyr y Rhyngrywyd ddiddordeb yn nharddiad daearyddol gwefan nac yn agwedd leol y nwyddau a'r gwasanaethau y maent am eu prynu. Os gofynnir iddynt ddewis rhwng ".com" (sef y TLD mwyaf cyffredin o bell ffordd o hyd) a ".wales", mae'n bosibl y bydd yn well gan atebwyr y TLD an-naearyddol am yr unig reswm mai dyna'r terfyniad y byddant yn ei ddefnyddio amlaf yn gyffredinol ac nid yng nghyswllt gwefannau sy'n gysylltiedig â Chymru. Mae cynnwys elfen Cymru yn y ddau gyfeiriad yn ei gwneud yn glir i atebwyr bod gofyn iddynt ddewis rhwng gwefannau lle mae'r agwedd Gymreig yn bwysig mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

¹³ Gwarged defnyddwyr yw'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae defnyddiwr yn barod i'w dalu am wasanaeth a'r hyn y mae'n ei dalu am y gwasanaeth hwnnw go iawn. Gall y ffigur hwn fod yn fawr ar gyfer gwasanaethau'r rhyngrywyd, oherwydd bod llawer o'r gwasanaethau hyn am ddim

¹⁴ Seilir hyn ar: 1.3m o aelwyd yng Nghymru; gwarged defnyddwyr €20 y defnyddiwr yr aelwyd y mis; ac £/€ = 0.87.

‘Petai part ar wahân i Gymru ond yn cynyddu e-fasnach 1 %, er enghraifft, yna byddai hyn yn cyfateb i gynnydd mewn gwerthiannau gwerth £195m.’

Ffigur 4: Yr hyn sydd orau gan bobl wrth gymharu parau o URLs sy'n cynnwys cyfeiriad at “Wales”




Nodyn: cynhaliwyd yr arolwg ym mis Hydref 2011. Maint y sampl N = 466, wedi'i rannu yn ôl amlygrwydd gwahanol TLDs â chyfeiriad at “Wales” gan ddefnyddio Chwiliad Manylach yn Google: 39 % “.co.uk”, 53 % “.com”, 5 % “.net”, 3 % “.org”.

Ffynhonnell: Arolwg defnyddwyr LE Wales

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos, er ei bod yn bosibl i ddefnyddwyr y Rhyngrywd adnabod gwefannau sy'n berthnasol yn lleol heb fod ganddynt TLD daearyddol arbennig (gweler Adran 3.2.1) y byddai mwyafrif sylweddol (64 % drwyddi draw) o ddefnyddwyr y Rhyngrywd yn dewis cyfeiriad “.wales” yn hytrach na chyfeiriad arall wrth gymharu'r ddau'n uniongyrchol. Yn yr un modd, byddai 74 % yn dewis cyfeiriad “.cymru” yn hytrach na dewis arall. Drwyddi draw, cyfran y defnyddwyr y byddai'n well ganddynt TLD penodol i Gymru yn hytrach na'r dewisiadau eraill sydd ar gael yw 70 %. Mae hyn yn awgrymu bod apêl yn perthyn i “.wales” a “.cymru” y gall busnesau ei defnyddio i hyrwyddo'u nwyddau a'u gwasanaethau, i gryfhau eu brand a maes o law, i ennill cwsmeriaid newydd a chynyddu eu gwerthiant.

Ffurig 5: Yr hyn sydd orau gan bobl wrth gymharu parau o URLs sy'n cynnwys cyfeiriad at "Cymru"



Nodyn: cynhaliwyd yr arolwg ym mis Hydref 2011. Maint y sampl N = 537, wedi'i rannu yn ôl amlygrwydd gwahanol TLDs â chyfeiriad at "Gymru" gan ddefnyddio Chwiliad Manylach yn Google: 28% ".co.uk", 26% ".com", 12% ".net", 33% ".org".

Ffynhonnell: Arolwg defnyddwyr LE Wales

3.3.2 Mesur effaith bosibl ".wales"

Y cam cyntaf wrth fesur effaith bosibl TLD ".wales" yw canfod faint o wariant gan ddefnyddwyr a all fod dan sylw, h.y. y rhan honno o wariant aelwyd a allai gael ei dargyfeirio petai busnesau'n defnyddio cyfeiriadau ".wales".

Mae'r arolwg a gynhaliwyd ymhliith defnyddwyr ar gyfer yr astudiaeth hon yn nodi'r gyfran o ddefnyddwyr sy'n ffafrio ".wales" yn ôl bandiau incwm. Mae'n datgelu hefyd pa gyfran o gyfanswm y gwariant y mae gan y Rhyngrywd rôl ynddi (h.y., yn cael ei ddefnyddio naill ai i brynu nwyddau ar lein neu i ymchwilio, i archebu lle ac ati) a chyfran y pryniannau sy'n "gysylltiedig â Chymru."¹⁵

¹⁵ Gofynnwyd i'r ymatebwyr adrodd ar gyfran y pryniannau sy'n gysylltiedig â'r rhyngrywd sy'n berthnasol i "wasanaethau sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol yng Nghymru".

Tabl 5: Prynianau cysylltiedig â'r rhyngrywyd a ffafrio ".wales" yn ôl bandiau incwm


Incwm blynnyddol	% sy'n ffafrio ".wales"	% o'r prynianau cysylltiedig â'r Rhyngrywyd*	% sy'n gysylltiedig â Chymru
<£20,000	66.2 %	41.1 %	29.8 %
£20,000 – £39,999	61.9 %	39.9 %	33.7 %
£40,000 – £59,999	61.9 %	46.9 %	39.3 %
£60,000 – £99,999	84.2 %	52.4 %	32.7 %
£100,000+	50.0 %	58.3 %	28.1 %
Cyfartaledd **	64.2%	42.2%	34.4%

Nodyn: * prynianau lle y defnyddir y Rhyngrywyd naill ai i brynu nwyddau a gwasanaethau'n uniongyrchol neu i ymchwilio, i drefnu lle, ac ati. ** wedi'i bwysoli yn ôl % yr aelwydydd fesul band incwm.

Ffynhonnell: Arolwg Defnyddwyr London Economics, ONS.

Mae'r arolwg yn dangos bod 42 % o bryniannau defnyddwyr ar gyfartaledd rywsut yn gysylltiedig â'r Rhyngrywyd. Mae ffigurau cyfartalog tebyg i'w gweld mewn astudiaethau eraill. Mewn arolwg o 2,009 o ddefnyddwyr y Rhyngrywyd yn y Deyrnas Unedig yn 2010 gwelwyd bod 53 % o bryniannau ar gyfartaledd yn gysylltiedig â'r Rhyngrywyd (Ffigur 9). Sylwer, fod bynnag, ar yr amrywiad mawr rhwng gwahanol gategorïau o gynhyrchion.

Ffigur 6: Defnyddio'r Rhyngrywyd o'i gymharu â phryniannau defnyddwyr (y Deyrnas Unedig)



Nodyn: Y_ar/P_ar = ymchwilio a phrynu ar lein; Y_ar/P_all = ymchwilio ar lein a phrynu all-lein; Y_all/P_ar = ymchwilio all-lein a phrynu ar lein; Y_all/P_all = ymchwilio a phrynu all-lein.

Ffynhonnell: Consumer Commerce Barometer (2010)



O gyfuno'r data hyn â data am a) defnyddio'r Rhyngrywyd yn Llundain (Eurostat), b) gwariant aelwydydd ac c) incwm aelwydydd (y ddau gan ONS) gallwn amcangyfrif y gwariant dan sylw, h.y. maint posibl yr ymateb o ran galw pe cyflwynid ".wales".

Tabl 6: Gwariant aelwydydd dan sylw

Incwm blynnyddol â chysylltiad â'r Rhyngrywyd *	Nifer yr aelwydydd â chysylltiad â'r Rhyngrywyd *	Gwariant cysylltiedig â Chymru cysylltiedig â'r Rhyngrywyd	% sy'n ffafrio ".wales"	Gwariant defnyddwyr dan sylw **
<£20,000	370,499	£463.5m	66.2 %	£306.6m
£20,000 – £39,999	397,098	£992.0m	61.9 %	£614.4m
£40,000 – £59,999	223,733	£1006.2m	61.9 %	£622.9m
£60,000 -- £99,999	120,922	£693.5m	84.2 %	£584.0m
£100,000+	15,280	£125.4m	50.0 %	£62.7m
Cyfartaledd **	1,127,532	£33.1bn	64.2%	£2.0bn

Nodyn: * 84 % o aelwydydd Cymru (cyfartaledd 2010); ** gwariant defnyddwyr a allai symud yn sgil y ffaith bod defnyddwyr yn ffafrio ".wales".

Ffynhonnell: Arolwg Defnyddwyr LE Wales, ONS, Ystadegau Gwladol Cymru (rhagamcanion aelwydydd), Eurostat.

Mae ymateb cadarnhaol defnyddwyr i gyfeiriad ".wales" a ddatgelir yn ein harolwg yn golygu y gallai busnesau a sefydliadau sy'n mabwysiadu gweffannau ".wales" ennill cyfanswm gwerthiannau gwerth £2.0 biliwn ar draul busnesau sy'n dal i ddefnyddio'r TLDs sydd ar gael ar hyn o bryd megis ".com" a ".co.uk". Mae hyn yn cyfateb i 8.1 % o gyfanswm gwerth ychwanegol crynswth Cymru yn 2009.

Fe allai'r effaith ar fusnesau unigol fod yn sylweddol. Dangosodd arolwg ymhliith 252 o uwch-benderfynwyr cwmnïau yng Nghymru ar gyfer yr astudiaeth hon ym mis Hydref 2011 fod 38 % ohonynt yn meddwl y gallai parth '.wales' eu helpu i hyrwyddo [eu] busnes yng Nghymru". A thybio bod hynny'n digwydd ar lefel gyfrannol, mae 38 % o drosiant busnesau Cymru yn oddeutu £32 biliwn (ONS, 2009). Ac ystyried bod £2 biliwn o wariant defnyddwyr yn y fantol, mae hyn yn awgrymu y gallai'r busnesau sy'n gweld ".wales" yn gyfrwng marchnata addawol gynyddu eu gwerthiant 6 % gan ddefnyddwyr yng Nghymru yn unig (er, unwaith eto, nid budd net yw hyn, ond dargyfeirio gwerthiannau oddi wrth fusnesau eraill). Sylwer nad yw hyn yn cynnwys effeithiau ychwanegol posibl drwy allforio mwy a gwerthu i ymwelwyr (dramor a gartref). Yn ôl yr un arolwg, mae 31 % o'r uwch-benderfynwyr yn meddwl y byddai ".wales" yn hyrwyddo'u busnes yn rhyngwladol, (mae 21 % yn meddwl y byddai hyn yn wir am ".cymru"), sy'n golygu bod effaith bositif net ar economi'r Deyrnas Unedig yn posibl, er nad yw ein methodoleg yn caniatáu inni fesur yr effaith hon.

I grynhoi, fe allai enw part "wales" yn hytrach na rhyw ddewis arall dylanwadu ar fwy na £2 biliwn o wariant aelwydydd. Seilir hyn ar amcangyfrif o'r gwariant yng Nghymru gan aelwydydd Cymru sy'n ffafrio'r enw part "wales" ac sydd naill ai'n ymchwilio i nwyddau a gwasanaethau ar lein neu'n eu prynu. Dyma faint o werthiannau y gallai'r sawl sy'n mabwysiadu "wales" ar draul busnesau eraill yng Nghymru eu hennill ac felly nid yw'n mesur yr effaith bosibl ar y GVA net nac yng Nghymru nac yn y Deyrnas Unedig. Nid yw'r ffigur yn cynnwys y galw gan bobl nad ydynt yn trigo yng Nghymru – petai modd dylanwadu ar rywfaint o'u gwariant hwy drwy gael part "wales" yna, byddai cyfanswm y gwerthiannau y gellid o ei ennill o bosibl yn uwch.

3.4 Buddion i'r gymuned a buddion ieithyddol

3.4.1 Buddion i'r gymuned

Mae rhai wedi dadlau y gall TLDs daearyddol gyfrannu at ymdeimlad o gymuned ac agosatrwydd drwy alluogi busnesau, sefydliadau ac unigolion i fyngi eu cysylltiadau â'i gilydd ac â'u cymdogaeth. Gan fod TLD daearyddol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwefannau, negeseuon e-bost a blogiau, mae hyn yn hysbyseb awtomatig i'r ardal ac yn cyfrannu at atgyfnerthu'r brand lleol.

Dadleuwyd hefyd, drwy reoleiddio a rheoli TLDs daearyddol yn briodol, y gallent chwarae rhan allweddol o ran cryfhau cydlyniant cymdeithasol, gan eu bod yn mynegi natur unigryw enw'r part ac yn cynyddu balchder dinesig. Er enghraift, mae'r rheini sy'n cefnogi part lefel uchaf ar gyfer Dinas Efrog Newydd yn awgrymu mechanwaith dyrannu ar gyfer ".nyc" a fyddai'n rhoi enw part am ddim i bob unigolyn sy'n cofrestru i bleidleisio, gan arwain at gryfhau balchder dinesig ac ymwybyddiaeth ddinesig ac atgyfnerthu cymhellion i gofrestru i bleidleisio (Cyngor y Ddinas, Dinas Efrog Newydd, 2009). Yn olaf, dadleuir y gallai TLDs daearyddol ategu'r broses llywodraethu draddodiadol, gan eu bod yn atgyfnerthu balchder dinesig ac, yn sgil hynny, yn annog y boblogaeth leol i gymryd rhan yn eu cymdeithas ac ymdrechu i'w gwella (.nyc Inc. (b)).

Mae'n anodd iawn bod yn siŵr a fyddai buddion fel hyn yn cael eu gwireddu neu beidio nac ychwaith sut y byddent yn datblygu ac mae'n annhebygol y byddai'r TLDs daearyddol yn gallu creu'r dylanwad hwn ar eu pen eu hunain. Serch hynny, fe allent yn wir fod yn ffordd effeithiol o atgyfnerthu gweithgareddau eraill sy'n ceisio cyrraedd y nodau hyn. Yng nghyd-destun Cymru, er enghraift, gallai defnyddio ".wales" helpu i godi ymwybyddiaeth o Gymru, sy'n broblem benodol y tu allan i'r Deyrnas Unedig, gan atgyfnerthu'r ffordd y defnyddir 'brand Wales ar hyn o bryd a datblygu'r defnydd hwnnw. Yn naturiol, fe allai TLD daearyddol ".cymru" gyfrannu yn yr un modd at atgyfnerthu'r ffordd y defnyddir ac y datblygir 'brand Cymru".

3.4.2 Buddion ieithyddol

Mae'r sawl sy'n cefnogi cyflwyno part lefel uchaf daearyddol ar gyfer Cymru, yn enwedig part ".cymru" yn dadlau y bydd hyn o fudd i gymuned Cymru drwy hyrwyddo'i diwylliant a'i hiaith.

Wrth inni drafod y buddion wrth chwilio, esboniwyd pam yr ydym yn meddwl y gallai part ".cymru" a gyfyngid i wefannau Cymraeg eu hiaith gynorthwyo defnyddwyr wrth iddynt chwilio am wefannau Cymraeg. Yn y modd hwn, gallai hybu mwy o ddefnydd ar wefannau Cymraeg ac felly annog pobl hefyd i ddatblygu mwy o wefannau Cymraeg. Fe allai hyn o bosibl droi'n gylch



I grynhoi, fe allai enw part “.wales” yn hytrach na rhyw ddewis arall ddylanwadu ar fwy na £2 biliwn o wariant aelwydydd.

rhinweddol. Serch hynny, fe allai cynnwys y Gymraeg fel rhan o wasanaeth chwilio manylach Google gyflawni'r un nod, ac mae profiad TLD ".cat" a ddisgrifir isod yn awgrymu na fyddai TLD daearyddol ".cymru" neu ".wales" yn arwain at gymaint o fudd ag y byddai rhywun wedi'i obeithio. Fe allai parth ".cymru" hefyd godi proffil y Gymraeg, am yr unig reswm bod y gair "Cymru" yn fwy gweladwy a'i fod yn cyfrannu at ddatblygu 'brand Cymru'.

Mae'n bosibl y gallai naill ai'r parth ".cymru" neu'r parth ".wales" gyfrannu hefyd at ddatblygu'r gymuned Gymraeg ei hiaith yn yr un ffordd ag y byddai'n arwain at y buddion mwy cyffredinol i'r gymuned a ddisgrifir uchod. Efallai fod hyn yn fwy tebygol o ddatblygu gyda pharth ".cymru" gan fod yr enw parth hwn yn air Cymraeg, ond ni fyddai parth ".wales" ychwaith o reidrwydd yn rhwystro hyn, oherwydd byddem yn rhagweld y byddai hwnnw'n cynnwys gwefannau Cymraeg a gwefannau Saesneg.


Mae llawer o waith ar y gweill i hybu mwy o ddefnydd ar y Gymraeg yng Nghymru ac fe allai'r manteision ieithyddol posibl a grybwylir uchod fod yn fach o'u cymharu â dylanwad gweithgareddau eraill i hybu defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir am fod y Gymraeg eisoes yn cael ei defnyddio'n frwd ar lawer o wefannau a bod gan yr iaith rywfaint o statws yn yr amgylchedd digidol, heb fod angen cael TLDs cysylltiedig â Chymru. O'u cymharu â nifer y siaradwyr Cymraeg, mae mwy o erthyglau Cymraeg ar Wikipedia, er enghraifft nag sydd o erthyglau Wikipedia Catalaneg o'u cymharu â nifer siaradwr yr iaith honno.¹⁶ Mae'r Gymraeg hefyd yn un o'r ieithoedd sydd ar gael drwy Google Translate, er, fel y nodwyd wrth inni sôn am y buddion wrth chwilio, nid yw'n un o'r ieithoedd a gynigir yng nghyfleuster chwilio manylach Google. Drwy waith Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill, mae sawl pecyn meddalwedd ar gael yn Gymraeg sy'n cael eu defnyddio'n eang, gan gynnwys rhagleni Microsoft. Serch hynny, gallai'r TLDs daearyddol ar gyfer Cymru gyfrannu at atgyfnerthu gweithgareddau ehangach i hybu defnyddio'r Gymraeg a chryfhau ei statws fel cyfrwng cyfathrebu cyfoes.

¹⁶ Seilir hyn ar 33,942 o erthyglau Cymraeg ar Wikipedia ac 352,815 o erthyglau Catalaneg ar Wikipedia ar 29 Medi 2011. Ffynhonnell: Wikipedia.org.Tybiwyd bod rhwng 750,000 a 1,000,000 o siaradwyr Cymraeg ac 11.5 miliwn o siaradwyr Catalaneg drwy'r byd.

3.4.3 Profiad puntCAT

Catalonia oedd y gymuned ddiwylliannol-ieithyddol gyntaf i gael ei TLD ei hun. Cymeradwywyd “.cat” ar gyfer Catalonia gan ICANN ym mis Medi 2005. Dechreuodd cyfnod gwawrio’r TLD, pan oedd perchnogion nodau masnach yn gallu cofrestru enwau part a oedd yr un fath neu’n debyg i’w nod masnach ar 13 Chwefror 2006. Maes o law, ar 21 Ebrill yn yr un flwyddyn, agorwyd y broses gofrestru ar gyfer “.cat” i’r cyhoedd (Fundació puntCAT, n.d.). Mae’r ffigur a ganlyn yn dangos cyfanswm yr enwau part a gofrestrwyd gyda pharth lefel uchaf Catalonia ers 2007. Mae’n dangos cynnydd cyson yn nifer y gweffannau a’u henw’n gorffen gyda “.cat”. er gwaethaf pris manwerthu premiwm cyfeiriadau “.cat” (mae’r pris yn amrywio o €22 (£19) i €35 (£31) am flwyddyn).

Figur 7: Nifer y gweffannau sydd wedi cofrestru â'r part "cat" 2007 – 2011




Ffynhonnell: Fundació puntCAT (n.d.). ‘Historia del domini .cat’.

Mae’r Ffigur isod yn dangos y duedd o ran gweffannau yn yr iaith Catalaneg fel canran o weffannau’r cwmniâu a’r sefydliadau sydd wedi’u lleoli naill ai yng Nghatalonia neu mewn rhanbarthau eraill lle y siaredir Catalaneg, yn ogystal â gweffannau cwmniâu sydd y tu allan i’r rhanbarthau hynny ond sy’n cynnig eu cynnrych a’u gwasanaethau yno (META-NET, 2011). Darperir data misol ar gyfer y cyfnod rhwng Awst 2002 ac Awst 2011, a’r rheini’n cynnwys gwybodaeth am 35 o sectorau economi Catalonia.

‘Mae rhai wedi dadlau y gall TLDs daearyddol gyfrannu at ymdeimlad o gymuned ac agosatrwydd drwy alluogi busnesau, sefydliadau ac unigolion i fynegi eu cysylltiadau â’i gilydd ac â’u cymdogaeth.’

Ffigur 8: Gwefannau Catalaneg, % o gyfanswm y cyfartaledd traws-sector misol




Nodyn: Mae'r cysgodion yn dangos yr adeg cyn y cyfnod gwawrio, yn ystod y cyfnod hwnnw ac ar ei ôl, yn y drefn honno.

Ffynhonnell: http://wiccac.cat/hist_resums.html

Gwelwyd cynnydd cyson yng nghyfran y gwefannau Catalaneg rhwng Awst 2002 ac Awst 2011, er na welwyd twf sylweddol cryfach ar ôl cyflwyno “.cat”. Wrth ddadansoddi data ynglŷn â sectorau penodol, gwelwyd awgrym bod twf cymharol serth yng nghyfran y gwefannau Catalaneg yn y sector croeso, bwyta'i a bariau rhwng 2002 a 2004, a bod cyfradd y cynnydd wedi arafu, ond wedi parhau'n gadarnhaol, wedi hynny. Gwelir datblygiad tebyg yn y diwydiannau eraill a nodwyd, ac eithrio yn y diwydiant ffordd o fyw a ffasiwn, lle gwelwyd twf cymharol gryfach yng nghyfran y safleoedd Catalaneg ar ôl cyflwyno'r part "cat".

Figur 9: Gwefannau Catalaneg, % o'r cyfanswm 2002 – 2011 cyfartaledd fesul diwydiant



Nodyn:

- Glas tywyll = croeso, bwyta'i a bariau
- Gwyrd = Ffasiwn a ffordd o fyw
- Porffor = Chwareeon, diwylliant a hamdden
- Glas golau = Manwerthu arall
- Melyn = prifysgolion a gweinyddu
- Oren = Gwasanaethau Cyhoeddus
- Coch = Gwasanaethau eraill
- Llwyd = nid oedd modd eu gosod yn un o'r categoriâu uchod

Ffynhonnell: http://wiccac.cat/hist_resums.html

Mae amrywiaeth eang o ffactorau'n debygol o effeithio ar ddatblygiad nifer y gwefannau sydd ar gael yn yr iaith Catalaneg a'r rheini'n ffactorau nad yw'r dadansoddiad hwn yn ymdrin â hwy. Er nad yw'r dadansoddiad yn dangos cynnydd cyflymach yng nghanran y gwefannau Catalaneg ar ôl cyflwyno'r ".cat", a'i bod yn anodd casglu bod cyflwyno .cat wedi cael dylanwad cadarnhaol, mae'n bosibl serch hynny y byddai'r gyfradd twf wedi bod yn arafach byth heblaw am ".cat".

Mae darparwr y gofrestrfa ar gyfer y TLD ".cat" yn dweud, ers ei gyflwyno yn 2006, bod bron pob busnes mawr yng Nghatalonia'n defnyddio ".cat" wrth frandio a hysbysebu. Nid yw'r mentrau bach a chanolig yn gwneud hynny i'r un graddau gan nad oes ganddynt yr wybodaeth a'r adnoddau i newid TLDs neu i ymdrin â mwy nag un TLD. Yn ôl Fundació puntCAT, sefydliadau yn y sector diwylliant a thwristiaeth sydd fwyaf tebygol o gael budd yn sgil parth ".cat". Serch hynny, maent yn cydnabod bod sgoriau chwilio isel am gyfeiriadau ".cat" yn cyfyngu'r effaith ar ddarpar gwsmeriaid dramor. Ceisiwyd mynd i'r afael â'r sgoriau isel drwy drafod gyda darparwyr gwasanaethau chwiliota ond mae'r ymdrechion hynny wedi bod yn aflwyddiannus, er bod gweithgareddau i hyrwyddo ".cat" yn mynd rhagddynt.

Prin iawn fu'r achosion seibr-sgwatio, gyda dim ond 5 UDRP mewn pum mlynedd (a dau o'r rheini'n ymwneud â nodau masnach sydd â gwarchodaeth fyd-eang). Mae rheoleiddio llym (cyfnodau gwawrio ac ati) ar y TLD yn ei gwneud hi'n anodd ei gamddefnyddio. At hynny mae ".cat" yn ddrutach o dipyn na gTLDs eraill sy'n golygu ei fod yn llai deniadol i sgwatwyr.



Er bod i “.cat” elfen ieithyddol, nid yw’n ofyniad bod y rhai sy’n cofrestru’n cynnwys deunydd yn yr iaith Gatalaneg yn unig (er bod yn rhaid i ran sylweddol o’r cynnwys fod yn y Gatalaneg).. Serch hynny, y norm yw defnyddio’r Gatalaneg gan fod mwyafrif helaeth poblogaeth Catalonia’n gwbl ddwyieithog.

Drwyddi draw, mae rheoleiddio o safon wedi golygu bod “.cat” wedi gallu gwrthsefyll camddefnyddio megis seibr-sgwatio’n dda. Mae wedi’i gysylltu hefyd â chynnydd parhaus yn nifer y gwefannau “.cat”. Er bod cyfran y gwefannau perthnasol yn yr iaith Gatalaneg wedi parhau i gynyddu hefyd, nid yw’r cynnydd wedi bod yn gyflymach i bob golwg nag yr oedd cyn cyflwyno “.cat”. Mae rhywfaint o broblemau wedi bod hefyd i bob golwg o ran annog mentrau bach a chanolig i ddefnyddio’r TLD ac o ran pa mor weledol yw’r part wrth chwilio dramor.

3.5 Costau

3.5.1 Costau i’r rhai sy’n gweithredu’r cofrestrfeydd

Ar yr ochr costau, yr elfen gyntaf yw cost darparu TLDs newydd. Fe all hyn fod yn sylweddol. Mae ICANN yn amcangyfrif mai cost flynyddol gweithredu cofrestrfa yw \$2 filiwn¹⁷. Mae hyn yn cynnwys cost darparu’r seilwaith technegol angenrheidiol a’r weinyddiaeth. O safbwyt ymarferol, gellir rhannu’r tasgau hyn rhwng gwahanol sefydliadau. Y seilwaith technegol sy’n gyfrifol am y rhan fwyaf o’r gost gan mai cymharol ychydig o staff sydd eu hangen ar gofrestrfeydd.¹⁸

Bydd gweithredwyr cofrestrfeydd hefyd yn talu’r ffi ymgeisio i ICANN (wedi’i haddasu rhag ofn y gwrthodir y cais) yn ogystal â ffioedd gwasanaeth/adnewyddu parhaus. Y ffi ymgeisio (heb ei haddasu) ar gyfer TLD daearyddol newydd yw \$185,000 ac ar ben hynny codir ffioedd blynyddol a all fod yn unrhyw beth rhwng \$25,000 a \$75,000 (Snyder Bulik, 2009). Mae un cwmni yn America yn cynnig gwasanaeth llawn sy’n cynnwys paratoi’r cais/gweinyddu gTLD i ddefnyddwyr masnachol am \$100,000 y flwyddyn.¹⁹

Yn olaf, fe all fod angen gwario’n sylweddol ar farchnata’r TLDs daearyddol newydd. Dyma a ddywedodd un o’r ymgyrchwyr o blaid TLD “.nyc” ynglŷn â chost debygol y TLD daearyddol newydd mewn gwrandawiad yng Nghyngor Dinas Efrog Newydd: “Amcangyfrifwn y bydd yn costio miliynau o ddoleri, yn enwedig ar yr ochr farchnata. Dydy “adeiladu’r peth a disgwyl i bobl ddod” ddim yn fodel busnes da ar gyfer Parth Lefel Uchaf newydd (Cyngor Dinas Efrog Newydd, 2009).

Bydd y cofrestrfeydd yn adennill y costau hyn drwy godi ffioedd am bob gwefan sy’n defnyddio’r TLD dan sylw. Ac ystyried bod modd sicrhau arbedion maint ar draws TLDs (e.e. seilwaith technegol, gweinyddu, marchnata), mae gweithredwyr cofrestrfeydd sydd yn gweithredu ar raddfa fawr eisoes ac yn gallu gwrthsefyll pwysau yn debygol o fod mewn gwell sefyllfa i ysgwyddo gTLDs newydd a chynnig gwasanaethau cofrestru o safon heb orfol buddsoddi symiau mawr ychwanegol. Cyn belled â bod gweithredwyr y cofrestrfeydd yn wynebu pwysau cystadleuol, dylai defnyddwyr allu manteisio ar wasanaethau o safon uwch am gost is fesul uned.

¹⁷ ICANN (2010) ‘New gTLD program: benchmarking of registry operations’. Ar gael yn: <http://bit.ly/n0ckdy> [cyrchwyd 02 Medi 2011]

¹⁸ Gweler Cyngor Dinas Efrog Newydd (2009), t. 59:

- “.coop”, 6,000 part, a redir gan 1 person
- “.cat”, 30,000 part, 2 berson
- “.org”, 10 miliwn part, 8-10 o bobl
- “.asia”, 250,000 part, 5 o bobl

¹⁹ <http://www.mindsandmachines.com/>

3.5.2 Costau i ddefnyddwyr

I ddefnyddwyr, mae'r ffioedd tanysgrifio'n gymharol rad, sef oddeutu \$25 – \$50 (€18 – 36, £16 – £31) y wefan bob dwy flynedd (Cyngor Dinas Efrog Newydd, 2009), a dibynnu ar lefel y gwasanaeth (efallai y codir tâl uwch am barthau arbenigol).

Cost fwyaf TLDs newydd o bosibl fydd cost cofrestriadau amddiffynnol a chamau eraill y bydd deiliaid hawliau eiddo deallusol yn eu cymryd er mwyn eu hamddiffyn eu hunain rhag camddefnydd ("seibr-sgwatio"). Mae anghytuno ynglŷn â pha mor sylweddol yw'r costau hyn ac mae'n anodd dod o hyd i ffigurau dibynadwy. Serch hynny, mae nifer o amcangyfrifon ar gael sy'n dangos maint y broblem:

- Summit Strategies International (2004): ystyriod bod 41 % o'r holl gofrestriadau yn ".info" a 52 % o'r cofrestriadau yn "biz" yn gofrestriadau amddiffynnol;
- Stahura (2009): bydd oddeutu 3 % o enwau parth yr ail lefel yn cael eu cofrestru ym mhob un o'r saith gTLD mwyaf poblogaidd (".com", ".net", ".org", ".biz", ".info", ".us" a ".mobi");
- Krueger and Van Couvering (2010): bydd rhwng 76 % a 57 % o'r cofrestriadau yn y gTLDs mwyaf poblogaidd (a ddewisir yn lle ".com") (yn eu trefn: ".org", ".net" ".info", ".biz" and ".mobi"), wedi'i seilio ar 1,043 o gwmniâu'r 100 cwmni brand of Fortune:
- Zittrain and Edelman (2002): roedd 91 % o'r enwau parth ".biz" a gofrestrwyd yn gynnar (o fewn 6 mis) wedi'u cofrestru hefyd o dan ".com" (63 % hefyd yn ".net" a 49 % hefyd yn ".org"); roedd 44 % wedi'u cofrestru o dan ".com", ".net" ac ".org". Dim ond 9 % a oedd wedi'u cofrestru yn ".biz" yn unig; amcangyfrifai'r awduron fod 20 – 30 % wedi'u cofrestru gan yr un person/cwmni ac felly eu bod o bosibl wedi'u cofrestru er mwyn eu hamddiffyn eu hunain; hefyd, dim ond mewn 26 % o'r gwefannau ".biz" cynnar yr oedd unrhyw gynnwys go iawn, sy'n awgrymu bod cofrestru enw er mwyn ei amddiffyn yn beth cyffredin.

Dengys profiad gyda'r TLDs presennol y gall torri Hawliau Eiddo Deallusol greu problem ddifrifol. Yn ôl Kruger a Van Couvering (2004), mae gTLDs newydd yn cynyddu costau gorfodi (o dan Bolisi Datrys Anghyd fodau Cyffredin ICANN) \$0.80 ar gyfer pob nod masnach yn yr Unol Daleithiau neu \$1.58 miliwn (mae cost cwyn i'r UDRP yn costio \$2k – \$4k + ffioedd cysylltiedig sef \$1.6k – \$3.3k).

Serch hynny, nid yw edrych ar orfodaeth o dan UNDRP yn dweud y cyfan. Yn benodol, yn ôl ICANN, mae monitro parhaus yn costio rhwng \$6,000 a \$15,000 (gan gynnwys ymchwilio i gofrestrwyr ac ati) y flwyddyn a'r tymor (Katz, 2010a). Mae angen ychwanegu hefyd gostau llwybrau gorfodi eraill (e.e. llythyrau rhoi'r gorau-ac-ymatal @ \$200 – \$650, cyfreitha ac ati).

Yn ogystal â hynny, mae unrhyw effeithiau negyddol yn debygol o ddisgyn yn drymach ar ysgwyddau busnesau mawr sy'n berchen ar frandiau rhwngwladol gwerthfawr. Mae Katz (2010a) yn dweud, er bod tystiolaeth ar gael sy'n dangos bod cwmniâu mawr yn poeni am gofrestriadau amddiffynnol ar draws mwy nag un TLD, nid yw glir bod cwmniâu llai yn poeni am hyn yn yr un modd (mae engraifft Catalonia'n cadarnhau mai anaml iawn y bydd cwmniâu bach a chanolig yn cofrestru fwy nag unwaith). Mae hyn yn awgrymu na fyddai llawer o gwmniâu bychain sy'n darparu gwasanaethau lleol, a allai fod ar eu hennill yn sylweddol yn sgil y TLDs daearyddol newydd, o reidrwydd yn wynebu costau uwch i'r un graddau.

At hynny, mae gwir gostau camau amddiffynnol yn destun cryn ddadlau. Mae Antony van Couvering, Prif Weithredwr cwmni sy'n darparu gwasanaethau cysylltiedig â gTLDs yn honni "er ei bod yn wir y gwnaiff y TLDs newydd achosi cur pen i berchnogion brandiau", "mae modd i bobl gymryd camau ymarferol i warchod eu brandiau ar draws pob TLD newydd am gyn lleied â \$125




y brand." (Minds + Machines Blog, Mawrth 10th, 2009, <http://bit.ly/pJy200> [cyrchwyd 27 Medi 2011]).

At hynny, gwelwn dystiolaeth nad yw mwyafrif mawr y busnesau yng Nghymru'n gweld "seibrsgwatio"'n broblem ddifrifol sy'n effeithio arnynt hwy yng nghyswllt geo-TLD i Gymru. Yn ein harolwg ymhlieth 250 o reolwyr busnesau yng Nghymru, gwelir bod 29% yn poeni y gallai'r TLDs newydd gael eu defnyddio'n anghyfreithlon. Serch hynny, mae'r gyfran hon yn is o lawer na'r rheini sy'n dweud nad ydynt yn poeni am fygythiadau i'w brand yn sgil gwefannau anghyfreithlon yn gweithredu yn y TLDs newydd.

Yn anad dim, mae'r rhan fwyaf o'r amcangyfrifon sydd ar gael yn berthnasol i gostau gTLDs yn hytrach nag i TLDs daearyddol neu cc-TLDs lle mae problem torri Hawliau Eiddo Deallusol yn

Ffigur 10: Lefel y pryder ynglŷn â thorri Eiddo Deallusol* yn sgil y TLDs newydd



Nodyn: Gofynnwyd i'r ymatebwyr: "Mae rhai cwmniau'n poeni y gallai cyflwyno Parthau Lefel Uchaf newydd olygu bod modd i ymgeiswyr anghyfreithlon gofrestro gwefannau o dan enwau brand sy'n bodoli eisoes. Pa mor bryderus neu beidio (ar raddfa 1-5) fyddai eich cwmni chi am hyn?"

Ffynhonnell: Arolwg busnesau LE Wales (Hydref 2011)

ymddangos yn llai difrifol o lawer. Wrth inni ymgynghori, ychydig iawn a oedd yn poeni am hyn i bob golwg, gan ddadlau bod y gost yn dibynnu ar sut yr ymdrinnir â'r broses cofrestru ar gyfer y TLDs daearyddol newydd. Mae'r engrhaifft ".cat" i bob golwg yn dangos y gall gweithdrefnau cofrestru, o'u rheoli'n iawn, fod yn effeithiol iawn o ran lliniaru anghyd fodau. Dim ond llond llaw a gofnodwyd yng nghyswllt ".cat" er 2005. Yn sicr, mae'n ymddangos bod dewis camau'n ofalus yn ystod y broses cofrestru (Tŷ Clirio Nodau Masnach fel yr awgrymwyd gan Adran Cyflawnder yr Unol Daleithiau ac a dderbyniwyd gan ICANN, cyfnodau gwawrio, ac ati) yn gallu lliniaru'n sylweddol unrhyw effeithiau niweidiol ac fe all y gwasanaethau cyfryngu am ddim a gynigir gan rai gweithredwyr wneud hyn hefyd.



4 Casgliadau

‘Byddai’n well gan 42% o’r rhai a atebodd ein harolwg ymhlið busnesau weld “.wales” yn barth lefel uchaf ar gyfer Cymru .’

4.1 Buddion

Wrth asesu buddion posibl y TLDs newydd, mae’n bwysig cofio, i’r mwyafrif helaeth o fusnesau a defnyddwyr, mai ystyriaeth ymylol yw llythrennau olaf cyfeiriad gwefan. Nid yw hynny’n golygu ychwaith nad yw TLDs yn cael dim effaith o gwbl. I’r gwrthwyneb, fel sy’n wir am agweddu eraill ar frandio nad ydynt o reidrwydd yn cael eu hystyried yn hanfodol, mae i’r TLDs newydd werth go iawn. Gwelir y gall TLDs daearyddol yn dylanwadu ar frandio mewn tair ffordd:

- Bydd TLDs daearyddol newydd yn rhyddhau lle ar gyfer enwau gan olygu bod cyfle i greu enwau mwy disgrifiadol a chofiadwy. Er bod pobl yn defnyddio chwiliotwyr yn helaeth i ddod o hyd i adnoddau ar y Rhyngrwyd a bod hynny’n lliniaru cymhlethdod ac anhwylustod URLs, mae’n amlwg bod iddynt fudd y gellir ei gymharu â phencynnau gwahanol, rhif ffôn cofiadwy ac ati.
- Mae TLDs daearyddol newydd sy’n anelu at gynulleidfa ddaearyddol gulach yn gallu manteisio ar y ffaith bod llawer o fusnesau a defnyddwyr lleol yn arddel agwedd sy’n ‘ffafrio’r lleol’. Yn aml iawn, bydd ffafrio’r lleol yn cynnwys gwahaniaethau mesuradwy o ran budd. Enghreifftiau o hyn yw’r cwlwm y gellir ei greu rhwng marchnata ar-lein a marchnata all-lein, medru cael gafael ar wasanaeth wyneb-yn-wyneb ar ôl gwerthu ac ati.
- Fe all cysylltiadau cadarnhaol â dynodiadau daearyddol penodol gryfhau brandio busnesau y mae eu cynnyrch yn elwa neu’n dibynnu ar gysylltiadau o’r fath. Bydd yr effaith hon yn amrywio o’r naill leoliad i’r llall a bydd gwahanol sectorau o’r economi ar eu hennill er bod twristiaeth mewn cyrchfan boblogaidd i ymwelwyr megis Cymru’n enghraift amlwg. Un agwedd ddiddorol yw y bydd defnyddio TLDs daearyddol newydd (e.e., mewn cyfeiriadau e-bost, blogiau ac ati) gan ddefnyddwyr yn yr ardal ei hun yn gwneud y rhanbarthau hynny’n fwy gweladwy’n rhyngwladol, gan greu cyhoeddusrwydd sydd fwy neu lai am ddim.

Daw buddion economaidd amlwg hefyd i ddefnyddwyr TLDs daearyddol newydd oherwydd y gallant gryfhau ymddiriedaeth defnyddwyr, gan fod oddeutu traean ohonynt ar hyn o bryd yn gyndyn o ymwneud â thrafodion masnachol dros y Rhyngrwyd. Mae dystiolaeth arolwg a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn dangos y gallai TLD i Gymru gryfhau ymddiriedaeth oddeutu 28% o ddefnyddwyr lleol yn eu busnes, sy’n awgrymu y gallai rhai pobl o leiaf ddechrau defnyddio’r Rhyngrwyd ar gyfer trafodion masnachol yn sgil hynny. Mae defnyddio’r Rhyngrwyd i siopa am nwyddau a gwasanaethau’n arwain at fuddion net i ddefnyddwyr o ran hwylustod, amrywiaeth a phris.

Mae’r effeithiau eraill y mae’r sawl sydd o blaid y TLDs daearyddol newydd yn eu cynnig yn gredadwy, ond yn anodd eu cadarnhau oherwydd diffyg profiad yn y gorffennol. Mae’r buddion o ran cywirdeb wrth chwilio (bod y chwiliotwr yn dod o hyd i’r gwefannau perthnasol o safbwyt y busnes) yn gredadwy: bydd chwiliotwyr yn ystyried y ccTLDs presennol er mwyn helpu i ganfod

gwefannau perthnasol ac fe ellid defnyddio TLDs daearyddol yn yr un modd. Byddem yn disgwyl i chwilotwyr addasu eu halgorithmau yn unol â'r TLDs newydd pe rhoddid y cynnwys perthnasol ynddynt.

Fe allai dadl arall, sef bod TLDs newydd yn galluogi "Rhyngrywd mwy greddfol", fod yn gredadwy hefyd: gellir dadlau bod system o enwau greddfol sy'n cynnwys safleoedd croni neu byrth megis "hotels.wales", "invest.wales", ac ati, yn haws eu deall – er na fyddent o reidrwydd yn haws eu defnyddio – na'r system bresennol sy'n dibynnu fwyfwy ar chwilotwyr i ganfod adnoddau perthnasol ar y Rhyngrywd.

Yn olaf, byddai defnyddwyr TLDs newydd ar eu hennill yn sgil mwy o gystadleuaeth yn y farchnad ar gyfer TLDs (h.y. rhwng ".com", ".co.uk" a'r TLDs daearyddol newydd megis ".wales"). Ac ystyried y gystadleuaeth gyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd, mae hyn yn debygol o wasgu ar brisiau a gwella lefelau'r gwasanaeth a roddir i ddefnyddwyr, ond dim ond i'r graddau y bydd y TLDs hyn yn cystadlu'n uniongyrchol â'i gilydd. Os byddant yn ategu ei gilydd, h.y. yn cael eu defnyddio at ddibenion gwahanol, bydd yr effaith gystadleuol yn llai.

4.2 Costau

Mae'n amlwg bod angen i weithredwyr cofrestrfeydd fuddsoddi o flaen llaw er mwyn darparu'r TLDs newydd. Serch hynny, bydd y costau fesul gwefan yn gymharol fach ac yn gostwng wrth i'r parth newydd ddenu mwy o ddefnyddwyr. Mae'n debygol y bydd angen marchnata sylweddol hefyd er mwyn hyrwyddo'r TLDs newydd, ond unwaith eto, mae costau marchnata yn y miliynau'n ymddangos yn isel wrth gymharu'r rheini â'r refeniw tebygol, gan dybio y byddai'r farchnad ar gyfer TLD i Gymru o bosibl yn cwmpasu dros 25 miliwn o wefannau (nifer y gwefannau yn ".co.uk" sydd ar hyn o bryd yn cynnwys y geiriau "Wales" neu "Cymru" yn eu URL).

Ac ystyried bod modd sicrhau arbedion maint ar draws TLDs (e.e. seilwaith technegol, gweinyddu, marchnata), mae gweithredwyr cofrestrfeydd sydd yn gweithredu ar raddfa fawr eisoes ac yn gallu grwrhsefyll pwysau yn debygol o fod mewn gwell sefyllfa i ysgwyddo TLDs daearyddol newydd a chynnig gwasanaethau cofrestru o safon heb orfol buddsoddi symiau mawr ychwanegol. Cyn belled â bod gweithredwyr y cofrestrfeydd yn wynebu pwysau cystadleuol, dylai defnyddwyr allu manteisio ar wasanaethau o safon uwch am gost is fesul uned.

Er y gall y costau sy'n codi yn sgil camau amddiffynnol i warchod hawlau Eiddo Deallusol mewn TLDs newydd fod yn uchel, nid oes gan y rhan fwyaf o fusnesau nodau masnach gwerthfawr sy'n adnabyddus yn rhyngladol y byddai angen buddsoddi llawer er mwyn eu gwarchod.

Mewn egwyddor hefyd, mae cost cofrestru amddiffynnol a chamau eraill i warchod Eiddo Deallusol yn disgyn ar ysgwyddau busnesau nad ydynt eu hunain yn gymwys ar gyfer y TLDs daearyddol newydd (fe all seibr-sgwatwyr yng Nghymru gamddefnyddio nodau masnach cwmniâu y tu allan i Gymru), tra bo'r rhan fwyaf o'r buddion yn berthnasol i ddefnyddwyr y TLDs newydd yn unig, er, o safbwyt ymarferol, credwn mai risg fechan yw hon. Nid yw'n glir y byddai cwmniâu nad oes ganddynt gysylltiad â'r TLD daearyddol newydd yn dioddef niwed sylweddol pe defnyddid eu nod masnach yn y TLD hwnnw.

At hynny, mae'r drefn reoleiddio i bob golwg wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth liniaru problem torri Hawliau Eiddo Deallus yn y TLD ".cat" sy'n awgrymu na fyddai'r costau mawr a grybwylir yn aml wrth sôn am gTLDs o reidrwydd yn berthnasol i'r TLDs daearyddol.



4.3 Parth Rhyngrwyd i Gymru

Er bod y dadleuon uchod yn berthnasol i'r TLDs daearyddol newydd ar lefel fwy eang, mae nifer o faterion hefyd sydd ag agwedd benodol Gymreig iddynt.

Yn gyntaf, mae dau TLD daearyddol posibl yn destun trafodaeth – “.wales” a “.cymru”. Mae buddion a chostau'r ddua barth hyn yn debyg, ond mae ambell wahaniaeth rhyngrwyd. Mae a wnelo'r prif wahaniaeth â'u cryfderau cymharol o ran brandio. I'r cwmnïau a'r cyrff hynny y mae'n well ganddynt ddefnyddio “.wales” fel rhan o'u brandio, yna, mae “.wales” yn debygol o fod yn fwy deniadol. Yn yr un modd, bydd “.cymru” yn fwy deniadol i gwmnïau a chyrff sy'n defnyddio “.cymru” fel rhan o'u brandio hwythau. Roedd yn well gan 42% o'r rhai a atebodd ein harolwg ymhliith busnesau yng Nghymru barth “.wales” tra bo'n well gan 24% barth “.cymru”. Roedd y busnesau yng Nghymru y buom yn siarad â hwy'n teimlo y byddai llawer a oedd yn gwerthu cynhyrchion a gwasanaethau y tu allan i Gymru'n ffafrio “.wales” gan fod hwn yn fwy adnabyddus y tu allan i Gymru. Roedd oddeutu 30% o'r busnesau yn meddwl y byddai enw parth “.wales” yn helpu i hyrwyddo'u busnes y tu allan i Gymru ac yn rhyngrwladol, tra bo oddeutu 20% yn meddwl y byddai enw parth “.cymru” yn cael yr effaith hon. Roedd nifer ychydig yn fwy o'r busnesau'n teimlo y byddai parth “.cymru” yn help i hyrwyddo'u busnes yng Nghymru (42%) nag a oedd yn meddwl y byddai parth “.wales” (38%).

Gwahaniaeth arall rhwng y ddua TLD posibl ar gyfer Cymru yw'r negeseuon y maent yn eu cyfleo ynglŷn â'r iaith. Gallai parth sy'n gyfyngedig i wefannau Cymraeg, er enghraift, wella'r chwiliadau am wefannau Cymraeg eu hiaith, er bod ffyrdd eraill o fynd i'r afael â hyn, megis ychwanegu Cymraeg at restr yr ieithoedd sydd ar gael yng ngwasanaeth chwilio manylach Google. Mae parth “.cymru” yn debygol o fod yn fwy deniadol i gyrrf ac unigolion sy'n awyddus i gysylltu eu hunain â'r Gymraeg mewn rhyw fodd, er y byddem yn rhagweld y byddai parth “.wales” yn cynnwys



gwefannau yn y ddwy iaith. Gellid naill ai targedu TLD “.cymru” at ddefnydd o'r Gymraeg neu ei anelu'n fwy cyffredinol at y ddwy iaith.

Yn ail, gallai cyflwyno TLD daearyddol i Gymru wneud cyfraniad pwysig hefyd at ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddatblygu delwedd brand gadarnhaol i Gymru y byddai pobl yn ei hadnabod. Mae gan Gymru broblem benodol sef nad yw llawer o bobl dramor yn adnabod Cymru nac yn gwybod amdani. Byddai defnyddio TLD daearyddol i Gymru'n golygu bod modd hysbysebu'r wlad am ddim wrth i wefannau a negeseuon ebost ei ddefnyddio'n barhaus mewn amrywiaeth o wahanol gyd-destunau. Gall y rhain gyfrannu at ymdrechion ehangach i gynyddu proffil Cymru dramor. Bydd y ffordd fwyaf priodol o ddefnyddio “.cymru” neu “.wales”, neu'r ddau i gyfrannu at yr ymdrech brandio hon yn dibynnu ar strategaeth brandio ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Mae ein harolwg ymhliith busnesau'n awgrymu y byddai part " .wales " yn fwy adnabyddus ar gyfer brandio y tu allan i Gymru ac felly'n gwneud cyfraniad sylwedol fwy nag y byddai “.cymru”. Yng Nghymru ei hun, roedd y gwahaniaethau rhwng canfyddiadau defnyddwyr yn llai o lawer, er bod nifer ychydig yn fwy'n ffafrio “.cymru” o'i gymharu â dewisiadau poblogaidd eraill megis “.co.uk” nag a oedd yn ffafrio “.wales” o'i gymharu â'r dewisiadau hynny. Efallai y bydd angen bod yn ofalus wrth bwys o mesur maint y buddion hyn oherwydd roedd rhai cwmnïau'n meddwl y gallai defnyddio part ar gyfer Cymru elyniaethu cwsmeriaid y tu allan i Gymru gydag 17 % yn teimlo y gallai hyn fod yn wir am barth “.wales” a 32 % yn meddwl hyn am barth “.cymru”.

Mae llawer o fusnesau bychain iawn yng Nghymru ac fe allai costau cyfeiriadau gwefan newydd fod yn broblem i'r busnesau hyn. Er bod 59 % o'r busnesau'n cefnogi cael part i Gymru, awgrymwyd inni bod Menterau Bach a Chanolig yn gwario ar bethau hanfodol yn unig yn yr hinsawdd economaidd bresennol – ac fe allai hyn effeithio ar y nifer a fanteisiai ar TLDs

daearyddol yn y tymor byr a dylanwadu ar benderfyniadau prisio gweithredwyr y cofrestrfeydd. Nodwyd hefyd na fyddai busnesau bychain iawn sy'n dibynnu ar Ddarparwr eu Gwasanaeth Rhyngrwyd am wefannau a chyfeiriadau e-bost am ddim o reidrwydd yn cael dewis TLD daearyddol Cymreig. Dywedwyd bod cyrff sy'n rhan o sefydliadau mwy ar lefel y Deyrnas Unedig yn tueddu i ddibynnu ar gael adran ar wefan eu rhiant sefydliad ac felly mai go brin y byddent yn dewis TLD daearyddol Cymru.

4.4 Crynodeb

Mae buddion TLDs daearyddol newydd yn debygol o fod yn ffynhonnell refeniw gymharol fechan i'r rhan fwyaf o fusnesau ac o ran eu defnyddioldeb i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Serch hynny, mae dystiolaeth dda bod manteision amlwg ar gael i ddefnyddwyr TLDs daearyddol newydd. Er mai gallu busnesau Cymru i finiogi eu marchnata a'u delwedd arlein, a thrwy hynny ddargyfeirio refeniw oddi wrth gystadleuwyd llai effro, fydd prif dylanwad y TLDs newydd, mae'n amlwg y caiff defnyddwyr fudd yn eu sgil hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys y budd ychwanegol a ddaw yn sgil brandio sy'n cyfeirio'n benodol at lleoliad, gwasanaethau Rhyngrwyd mwy perthnasol a chryfhau'r ymddiriedaeth yn y gwasanaethau hynny o ddilyn gweithdrefnau cofrestru TLD credadwy. Mae'r cwlwm ar-lein – all-lein yn rhan bwysig arall o werth TLDs lleoliad-benodol. Disgwylwn hefyd y gallai TLDs newydd ehangu'r defnydd o'r Rhyngrwyd ar gyfer trafodion masnachol.

Ar yr ochr costau, mae'r costau cofrestru i fusnesau'n gymedrol ac yn debygol o ostwng wrth i'r gystadleuaeth gynyddu yn y farchnad TLD. Fe allai rhai busnesau, yn enwedig perchnogion brandiau gwerthfawr, orfod gwario'n sylweddol i warchod eu hawliau Eiddo Deallusol. Serch hynny, gellid lliniaru hyn drwy sicrhau trefn reoleiddio briodol a goruchwyliaeth gan y gofrestrfa. Yn olaf, bydd gweithredwyr cofrestrfeydd yn gorfol buddsoddi er mwyn marchnata a hyrwyddo'r TLD newydd yn ôl y gwerth y maent yn ei ragweld i'r cofrestrfeydd fel mentrau busnes.

Mae ymateb defnyddwyr i'r TLDs daearyddol newydd yn yr arolygon yn gadarnhaol iawn. Mewn arolwg a gynhalwyd ar gyfer yr astudiaeth hon, gwelwyd bod 70% o'r atebwyr yng Nghymru'n ffafrio part i Gymru mewn cymhariaeth un-ac-un â gweffannau generig. Er nad oes modd dweud yn bendant beth yn union sy'n dylanwadu ar ddewisiadau defnyddwyr a busnesau o ran TLDs newydd, ac er ei bod yn anodd rhagweld pa mor gryw yw'r gwahanol dylanwadau, mae tafol y dystiolaeth yn awgrymu bod y TLDs daearyddol newydd yn debygol o arwain at fuddion economaidd net.

Gwelir bod galw eisoes am TLDs daearyddol newydd i Gymru ac mae hynny'n ystyriaeth bwysig. Hyd yn oed petai buddion economaidd TLDs o'r fath yn gymharol fach mewn termau absoliwt, nid yw hyn yn ddadl yn erbyn eu cyflwyno gan nad oes dadleuon economaidd cryf i'r gwrthwyneb. Mae dadleuon o'r fath yn y gorffennol wedi canolbwytio ar faterion sy'n ymwneud ag Eiddo Deallusol ac mae modd cyflawnhau'r dadleuon hynny i ryw raddau yng nghyd-destun rhai o'r gTLDs newydd. Serch hynny, nid oes rheswm dros gredu y byddai TLDs daearyddol, o'u rheoleiddio'n iawn, yn wynebu'r un problemau. Mae'r ffaith na fyddai i bob golwg unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol yn golygu y byddai'r TLDs daearyddol newydd, hyd yn oed wrth ddwyn buddion net bychain iawn, yn creu budd economaidd.



Cyfeiriadau

Cyfeiriadau

.nyc Inc. (n.d. (a)) ‘Community: identity, trust, justice and civic pride’. Ar gael yn: <http://bit.ly/oHC52c> [cyrchwyd Medi 27].

.nyc Inc. (n.d. (b)). ‘Advantages of the .nyc TLD’. Ar gael yn: <http://bit.ly/q37pPN> [cyrchwyd Medi 27 2011].

BBC Wales (2003). ‘The advantages and disadvantages of bilingualism’. Ar gael yn: <http://bbc.in/r1gxij> [cyrchwyd 27 Medi 2011].

BIA /Kelsey (2010). ‘Nearly all consumers (97 %) now use online media to shop locally, according to BIA/Kelsey and ConStat’. Ar gael yn: <http://bit.ly/o02IUf> [cyrchwyd 8 Medi 2011].

Cyngor y Ddinas, Dinas Efrog Newydd (2009). Trawsgrif o gofnodion y Pwyllgor ar Dechnoleg mewn Llywodraeth, Hydref 17, 2008. Ar gael yn: <http://bit.ly/oDiAE5> [cyrchwyd 26 Medi 2011].

dotCym Cyf (2009). ‘Memorandum a gyflwynwyd gan dotCym Cyf’. Ar gael yn: <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200708/cmselect/cmwelaf/305/305we17.htm> [cyrchwyd 26 Medi 2011].

Ellison, G. a Fisher Ellison, S. (2006). ‘Internet retail demand: taxes, geography, and online-offline competition’. Ar gael yn: <http://else.econ.ucl.ac.uk/conferences/consumer-behaviour/ellison.pdf> [cyrchwyd 15 Medi 2011].

EURid (2010). ‘How top-level domain customer service and brand influence customer buying behaviour’. Ar gael yn: http://www.eurid.eu/files/eu_insights_1.pdf [cyrchwyd 5 Medi 2011].

Y Comisiwn Ewropeaidd (2008). ‘Multilingualism: an asset for Europe and a shared commitment’ (Communication). Ar gael yn: http://ec.europa.eu/education/languages/pdf/com/2008_0566_en.pdf [cyrchwyd 25 Medi 2011].

Fundació puntCAT (n.d.). ‘Historia del domini .cat’. Ar gael yn: http://ec.europa.eu/education/languages/pdf/com/2008_0566_en.pdf [cyrchwyd 26 Medi 2011].

Gerrand, P. (2007). ‘Estimating linguistic diversity on the Internet: a taxonomy to avoid pitfalls and paradoxes.’ Ar gael yn: <http://jcmc.indiana.edu/vol12/issue4/gerrand.html> [cyrchwyd 26 Medi 2011].

Google (2008). ‘Consumer snapshot of online research and purchasing behaviour’. Ar gael yn: http://static.googleusercontent.com/external_content/untrusted_dlcp/www.google.co.uk/en/uk/intl/en/advertisers/pdfs/consumer.pdf [cyrchwyd 15 Medi 2011].

Cyfeiriadau

Helsper, E., Richter, W. a Meyer, E.T. (2010). "Consumption (incl. media and entertainment)". Yn: Study on the Social Impact of ITC: Topic Report 3. Adroddiad i'r Comisiwn Ewropeidd.

Honeycutt, C. (2008). 'Welsh without frontiers? Use of the community metaphor in Wales' sponsored top level domain bid.' Ar gael yn: http://ella.slis.indiana.edu/~clhoneyc/homepage/papers/wwf_web.doc [cyrchwyd 27 Medi 2011].

ICANN (2010) 'New gTLD program: benchmarking of registry operations'. Ar gael yn: <http://bit.ly/n0ckdy> [cyrchwyd 02 Medi 2011].

Improve (2010) 'The Food and Drink Manufacturing & Processing Industry: Wales Sector Skills Assessment Rhagfyr 2010'. Ar gael: <http://improveltd.co.uk/wales/industry-report/wales-sector-skills-assessment-december-2010> [cyrchwyd 21 Hydref 2011].

Katz, M. L., Rosston, G. L. a Sullivan, T. (2010a). 'An economic framework for the analysis of the expansion of generic top-level domain names'. Adroddiad (Cam I) i ICANN. Ar gael yn: <http://bit.ly/dp11Xw> [cyrchwyd 02 Medi 2011].

Katz, M. L., Rosston, G. L. a Sullivan, T. (2010b). 'Economic considerations in the expansion of generic top-level domain names'. Adroddiad (Cam II) i ICANN. Ar gael yn: <http://bit.ly/geWrJc> [cyrchwyd 02 Medi 2011].

London Economics (2011). 'Consumer behaviour in a digital environment'. Adroddiad i Senedd Ewrop, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Polisiau Mewnol. Ar gael yn: <http://bit.ly/mPec1K> [cyrchwyd 02 Medi 2011].

McKinsey & Company (2011). 'The impact of Internet technologies: search'. Ar gael yn: <http://bit.ly/o2hwW7> [cyrchwyd 14 Medi 2011].

The McKinsey Global Institute (2011). 'Internet matters: the net's sweeping impact on growth, jobs, and prosperity'. Ar gael yn: <http://bit.ly/mhaWWD> [cyrchwyd 15 Medi 2011].

Menapace, L., Colson, G., Grebitus, C. a Facendola, M. (2009). 'Consumer preferences for country-of-origin, geograpgical indication, and protected designation of origin labels'. Ar gael yn: <http://bit.ly/naCm0r> [cyrchwyd 9 Medi 2011].

META-NET (2011). 'Languages in the European information society: Catalan'. Ar gael yn: <http://bit.ly/pRtXyC> [cyrchwyd 26 Medi 2011].

Ofcom (2011). 'Communications Market Report: Wales', Awst 2011.

ONS (2010) 'E-commerce and ICT activity 2009'. Statistical Bulletin Tachwedd 2011. Ar gael yn: <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/rdit2/ict-activity-of-uk-businesses/2009/index.html> [cyrchwyd 24 Hydref 2011].

Y Sefydliad Cydweithredu a Datblygu Economaidd (2004). 'Generic top level domains: market development and allocation issues'. Ar gael yn: <http://bit.ly/r5wV6e> [cyrchwyd 13 Medi 2011].

Reibstein, D.J. (2002). "What Attracts Customers to On-line Stores, and What Keeps Them Coming Back". Journal of the Academy of Marketing Science, 30(4).

Rosston, G., Savage, S. J. And Waldman, D. M. (2010). Household Demand for Broadband Internet Service. Adroddiad terfynol i Dasglu'r Comisiwn Cyfathrebu Ffederal Broadband.gov. Ar gael yn: <http://bit.ly/qQhxwN> [cyrchwyd 27 Medi 2011].

Sinai, T. a Waldfogel, J. (2004). 'Geography and the Internet: is the Internet a substitute or a complement for cities?'. Ar gael yn: <http://bit.ly/pAGO7n> [cyrchwyd 15 Medi 2011].

Snyder Bulik, B. (2009). 'What's in a Domain Name? Marketers Weigh the Cost'. Ad Age Digital, Mawrth 09, 2009. Ar gael yn: <http://bit.ly/oF8EnC> [cyrchwyd 27 Medi 2011].

Llywodraeth Cymru (2011) 'Domestics Tourism to Wales, 2008, 2009 a 2020'. Ar gael yn: <http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/Tourism/110622ukfactsheet0810eng.pdf> [cyrchwyd 24 Hydref 2011].

Llywodraeth Cymru (2010) 'Overseas Tourism to Wales'. Ar gael yn: <http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/Tourism/100728overseasfactsheet0709eng.pdf> [cyrchwyd 24 Hydref 2011].